

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>PWYLLGOR:</b>	Cyngor Sir
<b>DYDDIAD:</b>	14 MEDI 2010
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	Adrodd ar gyhoeddi'r adroddiad terfynol gan Y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol ar gyfer Trefniadau Etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn.
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro fel y Swyddog Cofrestru Etholiadol (SCE)
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	Cyflwynwyd Cynigion Terfynol y Comisiwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w hystyried ar 31 Awst 2010.
<b>GWEITHREDU:</b>	Efallai y bydd y Cyngor Sir yn dymuno gwneud sylwadau pellach ynghylch y materion yn yr adroddiad a dylid cyflwyno'r rhain i Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn 12 Hydref 2010.

### **Cefndir:**

Mae gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn) ddyletswydd dan Adran 57 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif gyngor yng Nghymru o leiaf bob 15 mlynedd a dim amlach na phob 10 mlynedd i bwrpas ystyried a ddylid gwneud cynigion ai peidio i Lywodraeth Cynulliad Cymru am newid yn y trefniadau hynny.

Rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r Comisiwn gynnal yr adolygiad cyfnodol hwn yn Ionawr 2009 a darparwyd canllawiau gan y Gweinidog. Rhoddodd y Comisiwn gyflwyniad i Gyngorau Sir a Chymuned ym Mai 2009 a gwahoddwyd cynigion.

Cyhoeddwyd cynigion drafft ar 25 Ionawr 2010 gyda gwahoddiad i gyflwyno sylwadau. Rhoddodd y Cyngor, ac eraill, sylw i'r cynigion drafft a chyflwynodd sylwadau yn gynharach eleni.

Mae'r Cynigion Terfynol bellach yn nwylo Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w hystyried ac mae cyfle olaf i gyflwyno sylwadau cyn y dyddiad cau, sef 12 Hydref 2010. Ar ôl y dyddiad hwn gall Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud gorchymyn i weithredu'r cynigion a gyflwynwyd iddo gan y Comisiwn, gall eu gweithredu un ai fel y cyflwynwyd nhw neu gyda diwygiadau. Fel arall, gall roi rhybudd nad yw'n bwriadu gweithredu'r cynigion.

Mae'r Cynigion Terfynol yn argymhell Cyngor Sir o 36 o Aelodau yn cynrychioli 31 o ranbarthau etholiadol.

Dim ond 6 o'r rhanbarthau etholiadol cyfredol y cynigir eu cadw: Porth Amlwch, Biwmares, Bodorgan, Brynteg, Llanbedrgoch a Llanidan. Gellid newid y rhanbarthau etholiadol sy'n weddill.

Yn ogystal, mae'r cynigion terfynol yn cynnig pedwar o ranbarthau aml-aelod yn ardaloedd Caergybi, Llanfairpwllgwyngyll a Porthaethwy.


Mae'r Adroddiad Terfynol wedi ei phostio i Aelodau ar ei chyhoeddiad.

### **Argymhelliad:**

Gan bod y cynigion yn cynrychioli adolygiad o'r rhanbarthau etholiadol sirol cyfredol efallai y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried y Cynigion Terfynol a gwneud sylwadau ynghylch ai dyma'r model gorau o lywodraethu sirol effeithiol a hwylus i gynrychioli etholwyr Ynys Môn am y 10 i'r 15 mlynedd nesaf.

**Paratowyd yr adroddiad gan:** Alan Williams (Rheolydd Gwasanaethau Etholiadol, rhif ffôn 2815) a Robyn Jones (Rheolydd Gwasanaethau Cyfreithiol, Rhif ffôn 2134).

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU



Comisiwn Ffiniau  
Llywodraeth Leol  
i Gymru



Local Government  
Boundary Commission  
for Wales

**ADRODDIAD A CHYNIGION YR AROLWG O  
DREFNIADAU ETHOLIADOL**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**



# COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

## AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR YNYS MÔN

### ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD
2. CRYNODEB O'R CYNIGION
3. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG
4. CYNIGION DRAFFT
5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT
6. ASESIAID
7. CYNIGION
8. DIOLCHIADAU
9. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

ATODIAD 1	GEIRFA O DERMAU
ATODIAD 2	AELODAETH BRESENNOL Y CYNGOR
ATODIAD 3	AELODAETH ARFAETHEDIG Y CYNGOR
ATODIAD 4	CYFARWYDDYD Y GWEINIDOG A LLYTHYR YCHWANEGOL
ATODIAD 5	MAP O BORTHAETHWY
ATODIAD 6	CRYNODEB O'R CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I GYNIGION DRAFFT



*Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru*  
*Tŷ Caradog*  
*1-6 Plas Sant Andreas*  
*CAERDYDD*  
*CF10 3BE*  
*Rhif Ffôn: (029) 2039 5031*  
*Rhif Ffacs: (029) 2039 5250*  
*E-bost: [cfill.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:cfill.cymru@cymru.gsi.gov.uk)*  
*[www.cfill-cymru.gov.uk](http://www.cfill-cymru.gov.uk)*



**Mr. Carl Sargeant**  
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

## **AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR YNYS MÔN**

### **ADRODDIAD A CHYNIGION**

#### **1. CYFLWYNIAD**

1.1 Yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ar 13 Ionawr 2009, rydym ni, Comisiwn Ffiniau Lywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn), wedi cwblhau'n harolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ynys Môn ac yn cyflwyno'n Cynigion Terfynol ar gyfer trefniadau etholiadol yn y dyfodol. Ceir rhestr termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 1. Yn 2009, roedd gan Sir Ynys Môn etholaeth o 50,793. Ar hyn o bryd mae wedi ei rhannu yn 40 adran sy'n ethol 40 o gynghorwyr. Y gymhareb gyffredinol bresennol o aelodau i etholwyr yn y Sir yw 1:1,270. Ceir manylion y trefniadau etholiadol presennol yn Atodiad 2.

#### **2. CRYNODEB O'R CYNIGION**

2.1 Rydym yn cynnig lleihau maint y cyngor o 40 i 36 o aelodau etholedig a newid i drefn yr adrannau etholiadol a fydd yn cyflawni gwelliant sylweddol mewn cydraddoldeb etholiadol ar draws Sir Ynys Môn.

#### **3. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG**

3.1 Yn unol ag Adran 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn, ar gyfnodau nad ydynt yn llai na deng mlynedd a heb fod yn fwy na 15 mlynedd, i adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr holl brif ardaloedd yng Nghymru at ddibenion ystyried a ddylid gwneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru i newid y trefniadau etholiadol hynny ai peidio.

3.2 Derbyniodd y Comisiwn gyfarwyddyd gan Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno adroddiad ar yr arolwg o drefniadau etholiadol Cyngor Ynys Môn erbyn 30 Mehefin 2011.

#### **Trefniadau Etholiadol**

3.3 Mae "trefniadau etholiadol" prif ardal wedi'u diffinio yn adran 78 y Ddeddf fel:

- i) cyfanswm y cynghorwyr i'w hethol i'r cyngor;
- ii) nifer yr adrannau etholiadol a'u ffiniau;
- iii) nifer y cynghorwyr i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol; ac
- iv) enw unrhyw adran etholiadol.

## **Rheolau i Gydymffurfio â Hwy wrth Ystyried Trefniadau Etholiadol**

3.4 Yn unol ag Adran 78, cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol gwneud hynny, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â'r rheolau a nodir yn Atodlen 11 i'r Ddeddf. Mae'n ofynnol, yn unol â'r rhain, fod y Comisiwn yn trefnu bod un aelod ar gyfer pob adran etholiadol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall Llywodraeth y Cynulliad roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn ystyried dymunoldeb darparu ar gyfer adrannau etholiadol aml-aelod ar gyfer yr holl brif ardal neu rannau ohoni.

3.5 Yn ôl y rheolau, mae'n ofynnol hefyd:

Ystyried unrhyw newid yn nifer neu ddsbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y brif ardal sy'n debygol o ddigwydd yn ystod y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl ystyried y trefniadau etholiadol:

- i) yn amodol i baragraff (ii), bydd nifer etholwyr llywodraeth leol yr un neu mor agos â phosibl, ym mhob adran etholiadol yn y brif ardal;
- ii) os oes mwy nag un adran â sawl aelod, bydd y gymhareb rhwng nifer yr etholwyr llywodraeth leol a nifer y cynghorwyr i'w hethol yr un faint, neu mor agos â phosibl at hynny, ym mhob adran etholiadol yn y brif ardal (gan gynnwys mewn adrannau sydd ag un aelod yn unig);
- iii) mae'n rhaid i bob ward gymunedol sydd â chyngor cymuned (boed ar wahân neu ar y cyd) fod mewn un adran etholiadol yn unig; a
- iv) mae'n rhaid i bob cymuned nad ydyw wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol, fod o fewn un adran etholiadol.

Yn amodol i'r rheolau hyn, a'r rheolau hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.4, rhaid i ni ystyried (a) dymunoldeb pennu ffiniau sydd ac a fydd yn hawdd eu hadnabod; a (b) unrhyw gysylltiadau lleol a dorrir wrth lunio unrhyw ffin benodol.

## **Cyfarwyddiadau'r Gweinidog**

3.6 Derbyniodd y Comisiwn gyfarwyddyd gan y Gweinidog y dylai ystyried dymunoldeb adrannau etholiadol aml-aelod ym mhob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

3.7 Derbyniodd y Comisiwn y cyfarwyddiadau canlynol gan y Gweinidog hefyd o ran cynnal yr arolwg:

- (a) ystyrir bod angen o leiaf 30 o gynghorwyr i allu rheoli materion cyngor sir neu fwrdeistref sirol yn briodol;
- (b) er mwyn lleihau'r perygl o greu cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol sy'n rhy anghyfleus ac anodd ei reoli, ystyrir bod angen hyd at 75 o gynghorwyr fel arfer i allu rheoli materion cyngor sir neu fwrdeistref sirol yn briodol;
- (c) ystyrir mai cyflawni adrannau etholiadol lle mae'r gymhareb rhwng cynghorwyr ac etholwyr ddim is nag 1:1,750 y dylai'r nod fod;

- (ch) ystyrir na ddylid gwneud penderfyniadau i newid patrwm presennol adrannau etholiadol sydd ag un neu sawl aelod oni bai bod yr etholaeth yn gyffredinol yn cefnogi'r newid cyn belled y gellir gofyn am eu barn yn unol â'r gofyniad i ymgynghori yn Adran 60 y Ddeddf; ac
- (d) wrth gynnal arolygon o dan Ran 4 y Ddeddf, ystyrir bod yn rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â pharagraff 1A yn Atodlen 11 y Ddeddf, sef y rheolau.

Ceir testun llawn y Cyfarwyddiadau yn Atodiad 4. Esboniwyd y Cyfarwyddiadau ymhellach mewn llythyr gan y Gweinidog dyddiedig 12 Mai 2009. Mae copi o'r llythyr hwn yn dilyn y Cyfarwyddiadau yn Atodiad 4.

### **Newidiadau Llywodraeth Leol**

- 3.8 Ers yr arolwg diwethaf o drefniadau etholiadol, bu un newid i ffiniau llywodraeth leol yn Ynys Môn: Gorchymyn Cyngor Sir Ynys Môn (Cymunedau Caergybi, Cwm Cadnant, Penmynydd, Pentraeth a Llanfair Mathafarn Eithaf) 2009. Gwnaeth y Gorchymyn hwn newidiadau canlyniadol i ffiniau adrannau etholiadol yn yr ardaloedd hynny.
- 3.9 Gwnaeth Gorchymyn Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council o drefniadau etholiadol (Wardiau Tysilio a Chadnant Porthaethwy a Chyngor Tref Llangefni) 1998 newidiadau i'r ffin rhwng wardiau Cadnant a Tysilio yng Nghymuned Porthaethwy. Fe ffurfiodd y ddwy ward hyn adrannau etholiadol Cadnant a Tysilio yn y drefn hynny ac felly, oherwydd y newid hwn, ers 1988 cafwyd anomaledd rhwng ffin yr adrannau etholiadol (anghysondeb o gyfanswm o 12 o etholwyr). Ceir map yn dangos yr anomaledd ffin hwn yn Atodiad 5. Yn ein hystyriaeth o'r trefniadau etholiadol byddwn yn ceisio diddymu'r anomaledd hwn yn unol â'r Rheolau (gweler paragraff 3.5.iii uchod).

### **Gweithdrefn**

- 3.10 Mae Adran 60 o'r Ddeddf yn nodi canllawiau gweithdrefnol i'w dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol ag Adran 60 o'r Ddeddf, ar 20 Ebrill 2009, ysgrifenasom at Gyngor Sir Ynys Môn, yr holl gynghorau cymuned yn yr ardal, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol yr etholaeth leol, a phartïon eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am ein bwriad i gynnal yr arolwg, ac i ofyn am eu barn gychwynnol ac i ddarparu copi o gyfarwyddiadau Llywodraeth y Cynulliad i'r Comisiwn. Gwahoddasom y Cyngor Sir i gyflwyno cynllun neu gynlluniau awgrymedig ar gyfer y trefniadau etholiadol newydd. Rhoddasom gyhoeddusrwydd hefyd i'n bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd â chylchrediad yn y Sir a gofynasom i Gyngor Sir Ynys Môn arddangos nifer o hysbysiadau cyhoeddus yn eu hardal. Trefnom hefyd fod copïau o'n llyfryn arweiniad ar arolygon etholiadol ar gael. Yn ogystal, gwnaethom gyflwyniad i gynghorwyr Sir a chynghorwyr Cymuned gan esbonio'r broses adolygu.

## **4. CYNIGION DRAFFT**

- 4.1 Cyn llunio'n cynigion drafft, fe dderbyniom gynrychiolaethau gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Tref Porthaethwy, Cyngor Cymuned Tref Alaw; y Cynghorydd Sir H E



Jones (Llanidan), y Cyngorydd Sir K Evans (Cadnant), a'r Cyngorydd Sir R Llewellyn Jones (Porthyfelin); ac un preswlydd arall. Ystyriasom yr holl gynrychiolaethau hyn yn ofalus a'u crynhoi yn ein Cynigion Drafft a gyhoeddwyd ar 25 Ionawr 2010. Mae'r canlynol yn grynodedb o'n Cynigion Drafft.

### **Aberffraw a Bryngwran**

- 4.2 Mae adran etholiadol bresennol Aberffraw yn cynnwys Cymuned Aberffraw (528 o etholwyr, rhagamcener 554) a ward Maelog (567 o etholwyr, rhagamcener 595) yng Nghymuned Llanfaelog, ac mae ganddi gyfanswm o 1,095 o etholwyr (rhagamcener 1,150) a gynrychiolir gan un cyngorydd, sydd 14% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cyngorydd. Mae adran etholiadol bresennol Bryngwran yn cynnwys Cymuned Bryngwran (593 o etholwyr, rhagamcener 623) a Chymuned Trewalchmai (755 o etholwyr, rhagamcener 793) gyda chyfanswm o 1,348 o etholwyr (rhagamcener 1,415) a gynrychiolir gan un cyngorydd, sydd 6% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cyngorydd.
- 4.3 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno wardiau Deheuol 390 (410) a Gogleddol 88 (92) yng Nghymuned Aberffraw, ward Llanbeulan yng Nghymuned Bryngwran 133 (140) a Chymuned Trewalchmai 755 (793) i ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 1,366 o etholwyr (rhagamcener 1,435) a fyddai, pe bai un cyngorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,366 o etholwyr fesul cyngorydd, sydd 6% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig 1,451 o etholwyr fesul cyngorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn, o'i gyfuno â'r cynnig ar gyfer adran etholiadol **Llanfair-yn-Neubwll** (gweler 4.27 isod), yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, a chyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Aberffraw** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Amlwch Wledig a Llaneilian**

- 4.4 Mae adran etholiadol bresennol Amlwch Wledig yn cynnwys y ward Wledig yng Nghymuned Amlwch sydd â 978 o etholwyr (rhagamcener 1,027) a gynrychiolir gan un cyngorydd, sydd 23% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cyngorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llaneilian yn cynnwys Cymuned Llaneilian a Chymuned Rhosybol sydd â 1,806 o etholwyr (rhagamcener 1,896) a gynrychiolir gan un cyngorydd, sydd 42% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cyngorydd.
- 4.5 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno'r ward Wledig (978 o etholwyr, rhagamcener 1,027) yng Nghymuned Amlwch gyda Ward Eilian (429 o etholwyr, rhagamcener 450) yng Nghymuned Llaneilian i ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 1,407 o etholwyr (rhagamcener 1,459) a fyddai, pe bai un cyngorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1:1,407, sydd 3% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cyngorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, a chyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Amlwch Wledig** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

## Bodffordd a Llanfair-yn-Neubwll

- 4.6 Mae adran etholiadol bresennol Bodffordd yn cynnwys Cymuned Bodffordd (793 o etholwyr, 833 rhagamcenir) a ward Cerrigceinwen (430 o etholwyr, rhagamcenir 452) yng Nghymuned Llangristiolus ac mae ganddi gyfanswm o 1,233 o etholwyr (rhagamcenir 1,284) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 4% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanfair-yn-Neubwll yn cynnwys Cymuned Llanfair-yn-Neubwll (1,018 o etholwyr, rhagamcenir 1,069) a Chymuned Bodedern (790 o etholwyr, rhagamcenir 830) sydd â chyfanswm o 1,808 o etholwyr (rhagamcenir 1,898) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 42% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 4.7 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno cymunedau cyffiniol Bodffordd a Bodedern i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,583 o etholwyr (rhagamcenir 1,663) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,583 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 9% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn, o'i gyfuno â'r cynnig ar gyfer adran etholiadol **Llanfair-yn-Neubwll** (gweler 4.27 isod), yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, a chyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Bodffordd** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

## Braint a Cadnant

- 4.8 Mae adran etholiadol bresennol Braint yn cynnwys ward Braint yng Nghymuned Llanfairpwllgwyngyll sydd â 1,151 o etholwyr (rhagamcenir 1,209) a gynrychiolir gan un cynghorydd, ac mae hynny 9% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Cadnant yn cynnwys **hen** ward Cadnant<sup>1</sup> yng Nghymuned Porthaethwy sydd â 819 o etholwyr (rhagamcenir 880) a gynrychiolir gan un cynghorydd, 36% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 4.9 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno ward Braint yng Nghymuned Llanfairpwllgwyngyll a ward Cadnant yng Nghymuned Porthaethwy. Byddai hyn yn llunio adran etholiadol gyda chyfanswm o 3,213 o etholwyr (rhagamcenir 3,374) a fyddai, os y'i cynrychiolir gan ddau gynghorydd, yn sicrhau lefel o gynrychiolaeth o 1,607 o etholwyr i bob cynghorydd sydd 11% uwchlaw cyfartaledd sirol y cynigion drafft o 1,451 o etholwyr i bob cynghorydd. Cyflwynwn hyn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Braint** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

## Cefni a Bodffordd

- 4.10 Mae adran etholiadol bresennol Cefni yn cynnwys ward Cefni yng Nghymuned Llangefni sydd â 1,130 o etholwyr (rhagamcenir 1,187) a gynrychiolir gan un cynghorydd, ac mae hynny 11% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Bodffordd yn cynnwys Cymuned Bodffordd (793 o etholwyr, 833 rhagamcenir) a ward Cerrigceinwen (430 o etholwyr, rhagamcenir 452) yng Nghymuned Llangristiolus ac mae ganddi

---

<sup>1</sup> Wardiau cymunedol fel yr oeddynt yn bodoli cyn Gorchymyn arolwg Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council o drefniadau etholiadol (Wardiau Tysilio a Chadnant Porthaethwy a Chyngor Tref Llangefni) 1998

gyfanswm o 1,233 o etholwyr (rhagamcenir 1,284) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 4% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 4.11 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno ward Cefni yng Nghymuned Llangefni a ward Cerrigceinwen yng Nghymuned Llangristiolus i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,560 o etholwyr (rhagamcenir 1,639) a fydd, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,560 o etholwyr fesul cynghorydd, sef 7% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Cefni** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Cyngar a Llanddyfnan**

- 4.12 Mae adran etholiadol bresennol Cyngar yn cynnwys ward Cyngar yng Nghymuned Llangefni sydd â 1,483 o etholwyr (rhagamcenir 1,557) a gynrychiolir gan un cynghorydd, ac mae hynny 17% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanddyfnan yn cynnwys Cymunedau Llanddyfnan (834 o etholwyr, rhagamcenir 876) a Llaneugrad (215 o etholwyr, rhagamcenir 226) gyda chyfanswm o 1,049 o etholwyr (rhagamcenir 1,102) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 17% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 4.13 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno ward Cyngar yng Nghymuned Llangefni a Llangwyllog (94 o etholwyr, rhagamcenir 99) a Thregaeon (57 o etholwyr, rhagamcenir 60) yng Nghymuned Llanddyfnan i ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 1,634 o etholwyr (rhagamcenir 1,716) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 13% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Cyngar** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Adrannau Etholiadol Caergybi**

#### **Tref Caergybi, Porthyfelin a Parc a'r Mynydd**

- 4.14 Mae adran etholiadol bresennol Tref Caergybi yn cynnwys ward y Dref yng nghymuned Caergybi gyda 646 o etholwyr (rhagamcenir 678) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 49% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Porth-y-felin yn cynnwys ward Porth-y-felin yng nghymuned Caergybi, gyda 1,511 o etholwyr (rhagamcenir 1,567) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 19% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Parc a'r Mynydd yn cynnwys ward y Parc a'r Mynydd yng nghymuned Caergybi, gyda 915 o etholwyr (rhagamcenir 961) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 28% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 4.15 Yn adroddiad ein Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno'r tair adran etholiadol hon i greu adran etholiadol newydd arfaethedig gyda chyfanswm o 3,072 o etholwyr

(rhagamcenir 3,226) a fyddai, pe bai dau gynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,536 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 6% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Nodwyd fod yr adrannau hyn yn cydffinio â'i gilydd o fewn un ardal ddatblygedig. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Tref Caergybi** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Morawelon, Ffordd Llundain, Kingsland a Maeshyfyd**

- 4.16 Mae adran etholiadol bresennol Morawelon yn cynnwys ward Morawelon yng Nghymuned Caergybi gyda 937 o etholwyr (rhagamcenir 984) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 26% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Kingsland yn cynnwys ward Kingsland yng Nghymuned Caergybi gyda 995 o etholwyr (rhagamcenir 1,045) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 22% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Ffordd Llundain yn cynnwys ward Ffordd Llundain yng Nghymuned Caergybi gyda 900 o etholwyr (rhagamcenir 945) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 29% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Maeshyfyd yn cynnwys ward Maeshyfyd yng Nghymuned Caergybi, gyda 1,446 o etholwyr (rhagamcenir 1,518) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 14% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 4.17 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno wardiau Cymuned Caergybi, sef Morawelon, Ffordd Llundain, Kingsland, a Maeshyfyd, i ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 4,278 o etholwyr (rhagamcenir 4,492) a fyddai, pe bai tri chynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,426 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 2% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Nodwyd fod yr adrannau hyn yn cydffinio â'i gilydd o fewn un ardal ddatblygedig. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Morawelon** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Llanbadrig, Mechell a Llanerchymedd**

- 4.18 Mae adran etholiadol bresennol Llanbadrig yn cynnwys Cymuned Llanbadrig, gyda 1,027 o etholwyr (rhagamcenir 1,078) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 19% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Mechell yn cynnwys Cymuned Mechell, gyda 985 o etholwyr (rhagamcenir 1,034) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 7% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanerchymedd yn cynnwys Cymunedau Llanerchymedd (985 o etholwyr, rhagamcenir 1,034) a Thref Alaw (423 o etholwyr, rhagamcenir 444) ac mae ganddi gyfanswm o 1,408 o etholwyr (rhagamcenir 1,478) ward Llanfairynghornwy (201 o etholwyr, rhagamcenir 211) yng Nghymuned Cylch-y-Garn a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 11% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

4.19 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno Cymuned Llanbadrig gyda ward gyffiniol Carreg-lefn (201 o etholwyr, rhagamcenir 211) yng Nghymuned Mechell a ward gyffiniol Llanbabo (55 o etholwyr, rhagamcenir 58) yng Nghymuned Tref Alaw. Byddai hyn yn creu adran etholiadol gyda chyfanswm o 1,283 o etholwyr (rhagamcenir 1,347) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,283 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 12% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn, o'i gyfuno â'r cynnig ar gyfer adran etholiadol **Llanerchymedd a Thref Alaw** (4.32 isod), yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, a chyflwynwn y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Llanbadrig** ar gyfer yr adran etholiadol.

### **Cwm Cadnant**

4.20 Mae adran etholiadol bresennol Cwm Cadnant yn cynnwys Cymuned Cwm Cadnant, ac mae ganddi 1,755 o etholwyr (rhagamcenir 1,843) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 38% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

4.21 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom greu adran etholiadol sy'n cynnwys ward Llandegfan yn unig yng Nghymuned Cwm Cadnant. Byddai hyn yn arwain at adran etholiadol gyda chyfanswm o 1,457 o etholwyr (rhagamcenir 1,530) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd llai nag 1% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a chyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Llandegfan** ar gyfer yr adran etholiadol.

### **Llaneilian**

4.22 Mae adran etholiadol bresennol Llaneilian yn cynnwys Cymuned Llaneilian (926 o etholwyr, rhagamcenir 972) a Chymuned Rhosybol (880 o etholwyr, rhagamcenir 924) gyda chyfanswm o 1,806 o etholwyr (rhagamcenir 1,896) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 42% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

4.23 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno cymuned Rhosybol gyda ward Llwyfo yn unig (497 o etholwyr, rhagamcenir 522) yng Nghymuned Llaneilian. Byddai hyn yn creu adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 1,377 o etholwyr (rhagamcenir 1,446) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,377 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 5% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a chyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Llaneilian** ar gyfer yr adran etholiadol.

### **Llanfaethlu a'r Fali**

4.24 Mae adran etholiadol bresennol Llanfaethlu yn cynnwys Cymuned Llanfachraeth (458 o etholwyr, rhagamcenir 481), Cymuned Llanfaethlu (426 o etholwyr, rhagamcenir 447) a ward Llanrhuddlad (385 o etholwyr, rhagamcenir 404) yng

Nghymuned Cylch-y-Garn, ac mae ganddi gyfanswm o 1,269 o etholwyr (rhagamcenir 1,332) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sy'n agos iawn at y cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Y Fali yn cynnwys Cymuned Y Fali, gyda 1,707 o etholwyr (rhagamcenir 1,707) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 34% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 4.25 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno Cymunedau Llanfachraeth a Llanfaethlu gyda ward Gorad (640 o etholwyr, rhagamcenir 672) yng Nghymuned Y Fali. Bydd hyn yn ffurfio adran etholiadol newydd a chanddi gyfanswm o 1,524 o etholwyr (rhagamcenir 1,601) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,524 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 5% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Llanfaethlu** ar gyfer yr adran etholiadol.

### **Llanfair-yn-Neubwll a Bryngwran**

- 4.26 Mae adran etholiadol bresennol Llanfair-yn-Neubwll yn cynnwys Cymuned Llanfair-yn-Neubwll (1,018 o etholwyr, rhagamcenir 1,069) a Chymuned Bodedern (790 o etholwyr, rhagamcenir 830) sydd â chyfanswm o 1,808 o etholwyr (rhagamcenir 1,898) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 42% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Bryngwran yn cynnwys Cymuned Bryngwran (460 o etholwyr, rhagamcenir 483) a Chymuned Trewalchmai (755 o etholwyr, rhagamcenir 793) gyda chyfanswm o 1,348 o etholwyr (rhagamcenir 1,415) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 6% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 4.27 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno Cymuned Llanfair-yn-Neubwll a ward Bryngwran (460 o etholwyr, rhagamcenir 483) yng Nghymuned Bryngwran i ffurfio adran etholiadol gyda chyfanswm o 1,478 o etholwyr (rhagamcenir 1,552) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,478 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 2% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r trefniant hwn, o'i gyfuno â'r cynigion ar gyfer adran etholiadol **Aberffraw** (4.3 uchod) ac adran etholiadol **Bodffordd** (4.7 uchod), yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac fe gyflwynom y cynllun hwn fel gynnig. Fe awgrymom yr enw **Llanfair-yn-Neubwll** ar gyfer yr adran etholiadol.

### **Llanfihangel Ysgeifiog a Rhosyr**

- 4.28 Mae adran etholiadol bresennol Llanfihangel Ysgeifiog yn cynnwys Cymuned Llanfihangel Ysgeifiog (1,193 o etholwyr, rhagamcenir 1,253), a Chymuned Penmynydd (327 o etholwyr, rhagamcenir 343) ac mae ganddi gyfanswm o 1,520 o etholwyr (rhagamcenir 1,596) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 20% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Rhosyr yn cynnwys Cymuned Rhosyr, gyda 1,733 o etholwyr (rhagamcenir 1,820) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 36% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

4.29 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno Cymuned Llanfihangel Ysgeifiog a ward Llangaffo (266 o etholwyr, rhagamcenir 279) yng Nghymuned Rhosyr. Byddai hyn yn llunio adran etholiadol gyda chyfanswm o 1,459 o etholwyr (rhagamcenir 1,532) a fyddai, os y'i cynrychiolir gan un cynghorydd, yn sicrhau lefel o gynrychiolaeth o 1,459 o etholwyr i bob cynghorydd sydd 1% uwchlaw cyfartaledd sirol y cynigion drafft o 1,451 o etholwyr i bob cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Llanfihangel Ysgeifiog** ar gyfer yr adran etholiadol.

### **Llangoed a Phentraeth**

4.30 Mae adran etholiadol bresennol Llangoed yn cynnwys Cymuned Llangoed, gyda 1,022 o etholwyr (rhagamcenir 1,073) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 20% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd a 42% islaw 1,750 o etholwyr i bob cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Pentraeth yn cynnwys Cymuned Pentraeth (913 o etholwyr, rhagamcenir 959) a Chymuned Llanddona (524 o etholwyr, rhagamcenir 550) gyda chyfanswm o 1,437 o etholwyr (rhagamcenir 1,509) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 13% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

4.31 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno Cymunedau Llanddona a Llangoed i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,546 o etholwyr (rhagamcenir 1,663) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,546 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 7% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Llangoed** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Llanerchymedd**

4.32 Mae adran etholiadol bresennol Llanerchymedd yn cynnwys Cymuned Llanerchymedd (985 o etholwyr, rhagamcenir 1,034) a Chymuned Tref Alaw (423 o etholwyr, rhagamcenir 444) ac mae ganddi gyfanswm o 1,408 o etholwyr (rhagamcenir 1,478) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 4% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

4.33 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno Cymuned Llanerchymedd a wardiau Llanddeusant (241 o etholwyr, rhagamcenir 253), Llechcynfarnwy (47 o etholwyr, rhagamcenir 49) a Llantrisant (80 o etholwyr, rhagamcenir 84) yng Nghymuned Tref Alaw i ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 1,353 o etholwyr (rhagamcenir 1,421) a fydd, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,353 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 7% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Cyflwynwn hyn fel cynnig. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Llanerchymedd a Thref Alaw** ar gyfer yr adran etholiadol.

## **Mechell a Llanfaethlu**

- 4.34 Mae adran etholiadol bresennol Mechell yn cynnwys ward Llanfechell (984 o etholwyr, rhagamcenir 1,033) yng Nghymuned Mechell a ward Llanfairynghornwy (201 o etholwyr, rhagamcenir 211) yng Nghymuned Cylch-y-Garn, gyda chyfanswm o 1,185 o etholwyr (rhagamcenir 1,244) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sef 7% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanfaethlu yn cynnwys Cymuned Llanfachraeth (458 o etholwyr, rhagamcenir 481), Cymuned Llanfaethlu (426 o etholwyr, rhagamcenir 447) a ward Llanrhuddlad (385 o etholwyr, rhagamcenir 404) yng Nghymuned Cylch-y-Garn, ac mae ganddi gyfanswm o 1,269 o etholwyr (rhagamcenir 1,332) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sy'n agos iawn at y cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 4.35 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno ward Llanfechell (783 o etholwyr, rhagamcenir 822) yng Nghymuned Mechell a Chymuned Cylch-y-Garn (586 o etholwyr, rhagamcenir 615). Byddai hyn yn ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 1,369 o etholwyr (rhagamcenir 1,437) a fydd, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,369 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 6% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe gynigiom yr enw **Mechell** ar gyfer yr adran etholiadol.

## **Moelfre a Llanddyfnan**

- 4.36 Mae adran etholiadol bresennol Moelfre yn cynnwys Cymuned Moelfre, gyda 860 o etholwyr (rhagamcenir 903) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 32% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanddyfnan yn cynnwys Cymuned Llaneugrad (215 o etholwyr, rhagamcenir 226) a Chymuned Llanddyfnan (834 o etholwyr, rhagamcenir 876) gyda chyfanswm o 1,049 o etholwyr (rhagamcenir 1,101) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 17% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 4.37 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno Cymuned Moelfre a ward Llanfihangel Tre'r-Beirdd (200 o etholwyr, rhagamcenir 210) yng Nghymuned Llanddyfnan i ffurfio adran etholiadol. Byddai gan yr adran etholiadol arfaethedig gyfanswm o 1,275 o etholwyr (rhagamcenir 1,339) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,275 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 12% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Moelfre** ar gyfer yr adran etholiadol.

## **Pentraeth, Llanfihangel Ysgeifiog a Chwm Cadnant**

- 4.38 Mae adran etholiadol bresennol Pentraeth yn cynnwys Cymunedau Llanddona (524 o etholwyr, rhagamcenir 550) a Phentraeth (913 o etholwyr, rhagamcenir 959) gyda chyfanswm o 1,437 o etholwyr (rhagamcenir 1,509) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 13% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr



fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Cwm Cadnant yn cynnwys Cymuned Cwm Cadnant, ac mae ganddi 1,755 o etholwyr (rhagamcenir 1,843) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 38% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanfihangel Ysgeifiog yn cynnwys Cymuned Llanfihangel Ysgeifiog (1,193 o etholwyr, rhagamcenir 1,253) a Chymuned Penmynydd (327 o etholwyr, rhagamcenir 343) ac mae ganddi gyfanswm o 1,520 o etholwyr (rhagamcenir 1,596) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 20% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 4.39 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno Cymunedau Pentraeth a Phenmynydd a ward Llansadwrn (298 o etholwyr, rhagamcenir 313) yng Nghymuned Cwm Cadnant. Bydd hyn yn ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 1,538 o etholwyr (rhagamcenir 1,615) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,538 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 6% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Pentraeth** ar gyfer yr adran etholiadol.

### **Rhosneigr ac Aberffraw**

- 4.40 Mae adran etholiadol bresennol Rhosneigr yn cynnwys ward Rhosneigr yng Nghymuned Llanfaelog gyda 748 o etholwyr (rhagamcenir 785) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 41% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Aberffraw yn cynnwys Cymuned Aberffraw (528 o etholwyr, rhagamcenir 554) a ward Maelog (567 o etholwyr, rhagamcenir 595) yng Nghymuned Llanfaelog, ac mae ganddi gyfanswm o 1,095 o etholwyr (rhagamcenir 1,150) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 14% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 4.41 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno Cymuned Llanfaelog (1,315 o etholwyr, rhagamcenir 1,381) a ward Llangwyfan (50 o etholwyr, rhagamcenir 53) yng Nghymuned Aberffraw. Byddai hyn yn ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 1,365 o etholwyr (rhagamcenir 1,433) a fydd, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,365 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 6% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Rhosneigr** ar gyfer yr adran etholiadol.

### **Rhosyr**

- 4.42 Mae adran etholiadol bresennol Rhosyr yn cynnwys Cymuned Rhosyr, gyda 1,733 o etholwyr (rhagamcenir 1,820) a gynrychiolir gan un cynghorydd, gyda chymhareb o 1,733 o etholwyr i bob cynghorydd, sydd 36% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 4.43 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno Cymuned Rhosyr, sef Llangeinwen (658 o etholwyr, rhagamcenir 691) a Niwbwrch (809 o etholwyr, rhagamcenir 849) i ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 1,467 o etholwyr

(rhagamcenir 1,540) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 1% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Rhosyr** ar gyfer yr adran etholiadol.

## Trearddur

- 4.44 Mae adran etholiadol bresennol Trearddur yn cynnwys Cymuned Trearddur (1,307 o etholwyr, rhagamcenir 1,372) a Chymuned Rhoscolyn (459 o etholwyr, rhagamcenir 482) gyda chyfanswm o 1,766 o etholwyr (rhagamcenir 1,854) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 39% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 4.45 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gynnwys Cymuned Trearddur yn unig yn yr adran etholiadol, ac mae ganddi gyfanswm o 1,307 o etholwyr (rhagamcenir 1,372) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 10% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom yr enw **Trearddur** ar gyfer yr adran etholiadol.

## Tudur a Llanddyfnan

- 4.46 Mae adran etholiadol bresennol Tudur yn cynnwys ward Tudur yng Nghymuned Llangefni sydd â 898 o etholwyr (rhagamcenir 943) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 29% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd a 49% islaw 1,750 o etholwyr i bob cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanddyfnan yn cynnwys Cymuned Llanddyfnan (834 o etholwyr, rhagamcenir 876) a Chymuned Lloneuigrad (215 o etholwyr, rhagamcenir 226) gyda chyfanswm o 1,049 o etholwyr (rhagamcenir 1,101) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 17% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 4.47 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom gyfuno ward Tudur yng Nghymuned Llangefni a ward Llanddyfnan (483 o etholwyr, rhagamcenir 507) yng Nghymuned Llanddyfnan i ffurfio adran etholiadol newydd. Byddai gan yr adran awgrymedig gyfanswm o 1,381 o etholwyr (rhagamcenir 1,450) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,381 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 5% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Fe gyflwynom y cynnig hwn. Fe awgrymom yr enw **Tudur** ar gyfer yr adran etholiadol.

## Tysilio

- 4.48 Mae adran etholiadol bresennol Tysilio yn cynnwys **hen** ward Tysilio<sup>2</sup> yng Nghymuned Porthaethwy sydd â 1,484 o etholwyr (rhagamcenir 1,558) a gynrychiolir gan un cynghorydd, 17% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

---

<sup>2</sup> Wardiau cymunedol fel yr oeddynt yn bodoli cyn Gorchymyn arolwg Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council o drefniadau etholiadol (Wardiau Tysilio a Chadnant Porthaethwy a Chyngor Tref Llangefni) 1998

4.49 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom lunio adran etholiadol yn cynnwys ward bresennol Tysilio yng Nghymuned Porthaethwy gyda 1,484 o etholwyr (rhagamcenir 1,558) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,583 o etholwyr fesul cynghorydd, 2% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd, ac yn dileu'r anghysondeb y sonnir amdano uchod (gweler 3.9). Fe gyflwynom y cynnig hwn. Fe awgrymom gadw'r enw **Tysilio** ar gyfer yr adran etholiadol.

### **Y Fali a Threarddur**

4.50 Mae adran etholiadol bresennol Y Fali yn cynnwys Cymuned Y Fali , gyda 1,707 o etholwyr (rhagamcenir 1,793) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 34% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Trearddur yn cynnwys Cymuned Trearddur (1,307 o etholwyr, rhagamcenir 1,372) a Chymuned Rhoscolyn (459 o etholwyr, rhagamcenir 482) gyda chyfanswm o 1,766 o etholwyr (rhagamcenir 1,854) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 39% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd.

4.51 Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe ystyriom lunio adran etholiadol newydd trwy gyfuno ward Llangynhenedl (68 o etholwyr, rhagamcenir 71), ward y Pentref (643 o etholwyr, rhagamcenir 675) a ward y Gorllewin (356 o etholwyr, rhagamcenir 372) yng Nghymuned y Fali a Chymuned Rhoscolyn. Bydd gan yr adran etholiadol hon gyfanswm o 1,526 o etholwyr (rhagamcenir 1,600) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,526 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 5% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriom y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, a cyflwynom y cynllun hwn fel cynnig. Fe awgrymom gadw'r enw **Y Fali** ar gyfer yr adran etholiadol.

4.52 Ym mhob un o'n newidiadau arfaethedig i'r trefniadau etholiadol, fe awgrymom enwau i'r adrannau etholiadol. Fe goesawom unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

### **Crynodeb o'r Cynigion Drafft**

4.53 Argymhellodd ein Cynigion Drafft gyngor o 35 o aelodau a 30 o adrannau etholiadol. Fe ystyriom y byddai'r trefniadau hyn yn darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac yn bodloni'r cyfarwyddiadau a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad o ran egwyddor.

4.54 Anfonwyd copïau o'r Cynigion Drafft i'r holl gynghorau, cyrff ac unigolion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 2.8 i geisio eu barn. Anfonwyd copi hefyd at unrhyw un oedd wedi cyflwyno sylwadau rhagarweiniol. Trwy hysbysiad cyhoeddus, fe wahoddom unrhyw sefydliad neu unigolyn arall gyda diddordeb yn yr arolwg i gyflwyno eu barn hefyd. Darparwyd copïau o'r Cynigion Drafft i'w harchwilio yn swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn a'r Comisiwn.

## **5. CYNRYCHIO LAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT**

- 5.1 Mewn ymateb i'n hadroddiad Cynigion Drafft, fe dderbyniom gynrychiolaethau gan Eleanor Burnham AC; Y Cynghorydd Sir K. Evans (Cadnant), Y Cynghorydd Sir H.E. Jones (Llanidan), Y Cynghorydd Sir G.O. Jones (Llanfair-yn-Neubwll); Cyngor Cymuned Bodedern, Cyngor Cymuned Cwm Cadnant; Cyngor Tref Caergybi, Cyngor Cymuned Llanfaelog; Cyngor Cymuned Llanfair-yn-Neubwll; Cyngor Cymuned Llanddyfnan; Cyngor Cymuned Llanidan; Cyngor Tref Porthaethwy; Cyngor Cymuned Pentraeth, Cyngor Cymuned Rhoscolyn, Cyngor Cymuned Rhosybol, Cyngor Cymuned Tref Alaw, Cyngor Cymuned Trewalchmai, Cyngor Cymuned y Fali a saith o breswylwyr a buddgyfranogwyr eraill. Ceir crynodeb o'r cynrychiolaethau hyn yn Atodiad 6.
- 5.2 Bu'r Comisiwn yn cwrdd â chynrychiolwyr o Bwyllgor Môn Un Llais Cymru ar 29 Ebrill a gydag Arweinyddion Grwpiau Cyngor Sir Ynys Môn ar 30 Ebrill 2010 i drafod y cynigion yn yr Adroddiad Drafft ymhellach.

## **6. ASESIAD**

### **Cais i Newid Ffin**

- 6.1. Cyn ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, hoffem ymateb i'r cynrychiolaethau oedd yn gofyn i'r Comisiwn gyflawni arolwg o ffiniau cymunedol a wardiau cymunedol. Mae'n amlwg o'r ceisiadau hyn bod rhywfaint o ansicrwydd yn bodoli o hyd ynglŷn â'r mecanwaith priodol ar gyfer cynnal y cyfryw arolygon. Dymunwn esbonio beth yw'r sefyllfa statudol.
- 6.2. Cwblhaodd y Comisiwn eu rhaglen o Arolygon Arbennig Cymunedol ar gyfer Cymru gyfan yn 1983 ac ers hynny mae wedi bod yn brif gyfrifoldeb y cynghorau i gadw'r strwythur Cymunedol dan arolwg. Mae Adran 55(2) y Ddeddf yn pennu gofyniad ar bob prif gyngor yng Nghymru i gadw'u hardal gyfan o dan arolwg er mwyn ystyried pa un a ddylid gwneud argymhellion i'r Comisiwn ar gyfer cyfansoddiad cymunedau newydd, diddymu cymunedau neu newid cymunedau yn eu hardal. Mae'r Comisiwn yn ystyried cynigion y prif gyngor ac yn adrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a gall hithau, os gwêl yn dda, drwy orchymyn, weithredu unrhyw un o'r cynigion.
- 6.3. Dan Adran 57(4) y Ddeddf, mae hefyd yn ddyletswydd ar y prif gynghorau i gadw trefniadau etholiadol cymunedau yn eu hardaloedd dan arolwg, i'r diben o ystyried p'un a ddylid gwneud newidiadau sylweddol. Rhaid i'r prif gynghorau hefyd ystyried ceisiadau ar gyfer newidiadau gan gyngor cymuned neu gan nid llai na 30 o etholwyr llywodraeth leol cymuned, ac, os gwelant yn dda, wneud gorchymyn sy'n gweithredu'r newidiadau hynny. Felly mae ffiniau cymunedau a wardiau cymunedol yn fater i'r prif gyngor ystyried yn gyntaf.

### **Cymhareb cynghorwyr i etholwyr**

- 6.4. Mae cyfarwyddiadau'r Gweinidog yn cynnwys y canlynol yn 3.7 (a): "Ystyri'r mai cael adrannau etholiadol lle nad yw'r gymhareb rhwng cynghorydd ac etholwyr yn is

nag 1:1,750 y dylai'r nod fod." Mae'r Gweinidog wedi dynodi i'r Comisiwn fod hyn yn golygu na ddylai'r nifer o etholwyr fesul cynghorydd ddisgyn yn is na 1,750 fel arfer, a dyma sut y mae'r Comisiwn wedi dehongli a defnyddio'r Cyfarwyddyd. Rydym yn cydnabod y darperir y cyfarwyddiadau fel arweiniad ac ni ddylid eu defnyddio heb ystyried amgylchiadau arbennig yr ardal benodol: mae'n bosibl y bydd amgylchiadau yn ymwneud â thopograffeg neu boblogaeth ac ati o ardal, lle ystyrir bod adran etholiadol â llai na 1,750 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan un cynghorydd yn briodol. Esboniwyd hyn yn y llythyr gan y Gweinidog (Atodiad 4) a ddywedodd: "Golyga hyn fod y gymhareb yn parhau fel y nod i geisio ei chyflawni ac nid fel y nod i'w chyflawni ym mhob achos. Wrth wneud hynny, dylid talu sylw i gymunedau lleol gael eu cynrychiolaeth adnabyddadwy hyd yn oed pan na ellir cyflawni'r ffigur dangosol o 1,750 etholwyr/cynghorydd bob tro". Yn absenoldeb amgylchiadau arbennig, byddwn yn ceisio cynnig trefniadau etholiadol lle na fydd y lefel gynrychiolaeth yn disgyn yn is na 1,750 o etholwyr fesul cynghorydd. Ni chawn ein cyfyngu yn yr un modd gan y cyfarwyddyd hwn rhag cynnig trefn etholiadol lle mae nifer yr etholwyr sydd i'w cynrychioli gan bob cynghorydd, mewn achosion priodol, yn fwy na 1,750. Trwy'r arolwg hwn byddwn yn cadw'r gymhareb o 1:1,750 mewn cof, ac ni fyddwn fel arfer yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ei defnyddio yn benodol ym mhob achos.

## **Maint y Cyngor**

- 6.5. Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn cynnwys 40 o aelodau ac mae hyn o fewn y cyfyngiadau rhifol a nodir yng nghyfarwyddyd y Gweinidog. Y gymhareb bresennol o aelod i nifer etholwyr ar y cyngor yw 1:1,270 sydd 28% yn is na 1,750 o etholwyr i bob cynghorydd (gweler y gymhareb Cynghorwyr i etholwyr uchod). Ar hyn o bryd nid oes unrhyw adrannau aml-aelod.
- 6.6. Adolygasom y trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ynys Môn yn sgil cyfarwyddiadau Llywodraeth y Cynulliad i'n harwain, ac ystyriasom y cynrychiolaethau a gyflwynwyd i ni. Yn ystod ein trafodaethau, fe ystyriom y gymhareb rhwng nifer yr etholwyr llywodraeth leol a nifer y cynghorwyr i'w hethol, gyda'r bwriad o sicrhau bod yr un faint o etholwyr llywodraeth leol, o fewn rheswm, ym mhob adran yn y brif ardal. Fe edrychom ar yr adrannau un aelod presennol i ystyried pe ddylem argymhell creu adrannau aml-aelod. Ystyriasom faint a chymeriad yr awdurdod ac ystod eang o ffactorau eraill gan gynnwys dwysedd y boblogaeth, y dopograffeg leol, cysylltiadau ffyrdd a chysylltiadau lleol.
- 6.7. Am y rhesymau a nodir isod, credwn o safbwynt budd i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus y byddai cyngor o 36 aelod yn briodol i gynrychioli Sir Ynys Môn. Golyga'r penderfyniad hwn ynghylch maint y cyngor y cynrychiolir 1,411 o etholwyr ar gyfartaledd gan bob cynghorydd.

## **Nifer Etholwyr**

- 6.8. Y niferoedd a ddangosir fel etholwyr ar gyfer 2009 yw'r rhai a gyflenwir i ni gan Gyngor Sir Ynys Môn. Darparodd y Cyngor amcangyfrifon o'r etholaeth yn y flwyddyn 2014 ar sail adrannau etholiadol. Rydym wedi torri'r ffigurau hyn i lawr ymhellach i lefel cymuned a ward cymunedol trwy ddosrannu'r niferoedd hyn ar sail y dyraniad presennol o gymunedau a wardiau cymunedol. Cytunwyd ar y ffigurau

hyn gyda'r Cyngor. Dengys y ffigurau rhagamcanedig dwf posibl yn yr etholaeth o 2,540 o 50,793 i 53,333.

## Adrannau Etholiadol

- 6.9. Fel y nodwyd yn 6.5 uchod, ar hyn o bryd nid oes unrhyw adrannau etholiadol aml-aelod yn y Sir. Fodd bynnag, fe argymhellodd ein Cynigion Drafft dair adran etholiadol aml-aelod yn ardaloedd Caergybi, Llanfairpwllgwyngyll a Phorthaethwy. Roedd hyn oherwydd y cyfyngiadau o ddefnyddio cymunedau a wardiau cymunedol presennol fel sylfaeni wrth geisio gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardaloedd hyn. Rydym wedi nodi awydd cryf Cyngor Sir Ynys Môn i gadw strwythur sy'n gyfan gwbl seiliedig ar adrannau un aelod a'u dymuniad i gael arolwg o'r cymunedau a wardiau cymunedol yn ardaloedd Caergybi, Llanfairpwllgwyngyll a Phorthaethwy yn y dyfodol, gyda'r bwriad o'u rhesymoli mewn modd a fyddai'n darparu ar gyfer dychwelyd at adrannau un aelod. Byddwn yn darparu pa bynnag gymorth ymarferol y gallwn i'r Cyngor ar gyfer unrhyw arolygon yr hoffent gyflawni yn y dyfodol. Felly, mae'n cynigion terfynol yn awgrymu sefydlu pedair adran aml-aelod fel y disgrifir isod.
- 6.10. Fe ystyriom ffiniau adrannau etholiadol presennol **Porth Amlwch, Biwmares, Bodorgan, Brynteg, Llanbedrgoch a Llanidan** a'r gymhareb a nifer o etholwyr llywodraeth leol i'r nifer o gynghorwyr i'w hethol ac rydym yn cynnig y dylai'r trefniadau presennol barhau. Fe ystyriom newidiadau i'r adrannau etholiadol sy'n weddill. Gellir gweld manylion y trefniadau etholiadol presennol ar gyfer yr ardal yn Atodiad 2.
- 6.11. Wrth i ni ystyried newidiadau i'r adrannau etholiadol presennol, rydym wedi nodi'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd gan nifer o fuddgyfranogwyr unigol a grwpiau a wnaeth sylwadau cyffredinol ar ein Cynigion Drafft. Cafwyd gwrthwynebiadau'n nodi mai effaith gyffredinol ein Cynigion Drafft oedd i gyflwyno adrannau etholiadol aml-aelod ac i gyfuno cymunedau anghyfartal ymhellach. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r cynrychiolaethau hyn a thystiolaeth ategol a gwybodaeth leol wrth ystyried ein cynigion terfynol. Rydym wedi ystyried bod y trefniadau presennol ym Mhorthaethwy a Llanfairpwllgwyngyll yn anfodhaol iawn, a bod angen newidiadau i sicrhau bod yr etholaeth leol wedi eu cynrychioli'n gywir – sy'n golygu cyflawni gwell cydraddoldeb etholiadol. Nodwn y rhoddwyd ystyriaeth i gyflawni arolwg cymunedol yn y dyfodol i ddiddymu anghysondeb rhwng ffiniau cymunedol ac etholiadol. Oherwydd y rhesymau hyn, ac yn benodol oherwydd cydraddoldeb etholiadol, yr argymhellom sefydlu adrannau aml-aelod, ond fe dderbyniom gynrychiolaethau gan yr ardaloedd hyn yn gwrthwynebu ffurfio adrannau aml-aelod. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus iawn i'r cynrychiolaethau hyn ac yn ein cynigion terfynol rydym wedi ceisio adlewyrchu cyfansoddiad demograffig a dwysedd poblogaeth y brif ardal. Rydym wedi glynu at ein cynigion drafft (ac adrannau aml-aelod arfaethedig) a dim ond ble'r ymddengys i ni bod y gwelliant yn llai sylweddol neu bod gwrthddadleuon yn drech na nhw yr ydym wedi addasu ein cynigion.
- 6.12. Yn yr adran ganlynol, fe gyflwynir y cynigion ar gyfer pob un o'r Adrannau Etholiadol yn yr un modd. Mae rhan gyntaf paragraff cychwynnol pob un o'r rhain yn rhoi cyd-destun hanesyddol trwy restru'r Adrannau Etholiadol neu eu rhannau cyfansoddol a ddefnyddiwyd i adeiladu pob Adran Etholiadol arfaethedig. Disgrifir y cydrannau hyn – y Cymunedau a Wardiau Cymunedol – fel Cymuned gyflawn

ynghyd â'i etholwyr presennol a rhagamcanedig os y'i defnyddiwyd felly. Os mai dim ond rhan o Gymuned a ddefnyddir – h.y. Ward Gymunedol – yna fe ddangosir enw'r Ward Gymunedol honno, ei ffigurau etholaethol, ac enw ei Gymuned.

Yna mae rhan olaf y paragraff hwnnw ym mhob adran yn rhestru cydrannau'r Adran Etholiadol newydd yn yr un modd – nail ai fel Cymunedau cyfan gydag etholaethau presennol ac etholaethau rhagamcanedig, neu fel Ward Gymunedol a enwir, ei ffigurau etholiadol ac enw ei Gymuned – fel uchod. Defnyddir y dull hwn o ddisgrifio cyfansoddiad Adrannau Etholiadol yn y tablau yn Atodiad 2 a 3 hefyd.

### **Amlwch Wledig a Llaneilian**

- 6.13. Mae adran etholiadol bresennol Amlwch Wledig yn cynnwys y ward Wledig yng Nghymuned Amlwch (978 o etholwyr, rhagamcener 1,027) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 23% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llaneilian yn cynnwys Cymuned Llaneilian (926 o etholwyr, rhagamcener 972) a Chymuned Rhosybol (880 o etholwyr, rhagamcener 924) gyda chyfanswm o 1,806 o etholwyr (rhagamcener 1,896) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 42% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft fe argymhellom lunio adran etholiadol Amlwch Wledig trwy gyfuno'r ward Wledig yng Nghymuned Amlwch a ward Eilian yng Nghymuned Llaneilian i lunio adran etholiadol gyda chyfanswm o 1,407 o etholwyr (rhagamcener 1,477) a gynrychiolir gan un cynghorydd gyda lefel o gynrychiolaeth o 1,407 o etholwyr i bob cynghorydd, oedd 3% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.14. Fe dderbyniom wrthwynebiad i'r cynnig hwn gan Gyngor Cymuned Rhosybol ar y sail y byddai pentref Penysarn yn cael ei rannu'n ddwy gan y cynigion. Nodwn bod pentref Penysarn ar hyn o bryd wedi ei rannu'n ddwy gan y ffin rhwng wardiau Llwyfo ac Eilian yng Nghymuned Llaneilian. Rydym wedi nodi'r pryder y dylai pentref cyfan Penysarn fod yn yr un ardal etholiadol ac rydym o'r farn mai ystyriaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn o'r mater mewn arolwg o drefniadau etholiadol o'r gymuned yw'r unig fodd o ddatrys y sefyllfa. Rydym wedi ystyried y trefniadau etholiadol presennol yn yr ardal a chyfuniadau amgen o'r cymunedau a wardiau cymunedol, ond nid ydym wedi gallu nodi trefniadau amgen sy'n cyflenwi unrhyw beth tebyg i'r gwelliannau mewn cydraddoldeb etholiadol a welir yn ein cynnig. Efallai felly y bydd arolwg o drefniadau etholiadol y Gymuned gan y Cyngor Sir yn unioni'r anomaledd o rannu pentref Penysarn yn ddwy. O'r hyn a ddeallwn ynglŷn â'r nifer fechan o etholwyr dan sylw ystyriwn na fyddai'n effeithio'n sylweddola'r ein cynnig.
- 6.15. Rydym wedi nodi'r pryder ynglŷn â'r uchod, ond yn parhau i fod o'r farn y byddai adran etholiadol arfaethedig **Amlwch Wledig** yn ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly'n cyflyno'r cynnig hwn.

### **Bodffordd a Llanfair-yn-Neubwll**

- 6.16. Mae adran etholiadol bresennol Bodffordd yn cynnwys Cymuned Bodffordd (793 o etholwyr, 833 rhagamcener) a ward Cerrigceinwen yng Nghymuned Llangristiolus (430 o etholwyr, rhagamcener 452) gyda chyfanswm o 1,233 o etholwyr (rhagamcener 1,284) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 4% yn is na'r

cyfartaledd sirol presennol o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanfair-yn-Neubwll yn cynnwys Cymuned Bodedern (790 o etholwyr, rhagamcenir 830) a Chymuned Llanfair-yn-Neubwll (1,018 o etholwyr, rhagamcenir 1,069) gyda cyfanswm o 1,808 o etholwyr (rhagamcenir 1,898) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 42% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe gynigiom ffurfio adran etholiadol sy'n cyfuno Cymuned Bodedern a Chymuned Bodffordd i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,583 o etholwyr (rhagamcenir 1,663) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,583 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 9% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 6.17. Fe nodon y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Bodedern na ddylid eu huno gyda Bodffordd. Ystyriwn nad yw'r trefniadau presennol yn darparu cydraddoldeb etholiadol boddhaol a bod angen newid ac felly rydym wedi ystyried y trefniadau etholiadol presennol yn yr ardal a chyfuniadau amgen o gymunedau a wardiau cymunedol ond nid ydym wedi gallu nodi trefniadau sy'n darparu gwell lefel o gydraddoldeb etholiadol dros ein cynnig drafft. Ystyriwn y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cytuno ag awgrym Cyngor Cymuned Bodedern ac yn cynnig yr enw **Bodedern a Bodffordd** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Cefni a Bodffordd**

- 6.18. Mae adran etholiadol bresennol Cefni yn cynnwys ward Cefni yng Nghymuned Llangefni (1,130 o etholwyr, rhagamcenir 1,187) gyda chyfanswm o 1,130 o etholwyr (rhagamcenir 1,187) a gynrychiolir gan un cynghorydd, ac mae hynny 11% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Bodffordd yn cynnwys Cymuned Bodffordd (793 o etholwyr, 833 rhagamcenir) a ward Cerrigceinwen yng Nghymuned Llangristiolus (430 o etholwyr, rhagamcenir 452) a gynrychiolir gan un cynghorydd gyda chyfanswm o 1,233 o etholwyr (rhagamcenir 1,284), sydd 4% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe gynigiom gyfuno ward Cefni yng Nghymuned Llangefni a ward Cerrigceinwen yng Nghymuned Llangristiolus i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,560 o etholwyr (rhagamcenir 1,639) a fydd, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,560 o etholwyr fesul cynghorydd, sef 7% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.19. Ni dderbyniom unrhyw gynrychiolaeth parthed y cynnig hwn. Ystyriwn y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Rydym yn cyflwyno'r cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Cefni** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Braint, Gwyngyll a Cadnant**

- 6.20. Mae adran etholiadol bresennol Braint yn cynnwys ward Braint yng Nghymuned Llanfairpwllgwyngyll sydd â 1,151 o etholwyr (rhagamcenir 1,209) a gynrychiolir gan un cynghorydd, ac mae hynny 9% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270



o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Gwyngyll yn cynnwys ward Gwyngyll yng Nghymuned Llanfairpwllgwyngyll sydd â 1,243 o etholwyr (rhagamcenir 1,305) a gynrychiolir gan un cynghorydd, ac mae hynny 2% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Cadnant yn cynnwys ward Cadnant<sup>3</sup> yng Nghymuned Porthaethwy sydd â 819 o etholwyr (rhagamcenir 880) a gynrychiolir gan un cynghorydd, 36% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein Cynigion Drafft, fe awgrymom adran etholiadol oedd yn cyfuno Cymuned Llanfairpwllgwyngyll gyda 1,151 o etholwyr (rhagamcenir 1,209) a ward Cadnant 819 (860) yng Nghymuned Porthaethwy gyda 3,213 o etholwyr (rhagamcenir 3,374) a fydd, os y'i chynrychiolir gan ddau gynghorydd, yn arwain at lefel o gynrychiolaeth o 1,607 o etholwyr i bob cynghorydd sydd 11% yn fwy na'r drafft sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 6.21. Cyfeiriodd ein Cynigion Drafft at yr ardaloedd dan sylw fel bod yn un ardal datblygedig, ond nid yw hyn yn wir. Fe wahenir Llanfairpwllgwyngyll a Phorthaethwy gyda chaeau agored ac fe'i cysylltir gan ddwy briffordd. Fe nodom y cynrychiolaethau gan y Cynghorydd Evans a Chyngor Tref Porthaethwy oedd yn gwrthwynebu i'r uno arfaethedig gyda Llanfairpwllgwyngyll ar sail y rhain. Gofynnodd y Cynghorydd Evans i'r Comisiwn ystyried y trefniant amgen o uno wardiau Cadnant a Tysilio yng Nghymuned Porthaethwy ynghyd â threfniant debyg i wardiau Braint a Gwyngyll o Gymuned Llanfairpwllgwyngyll hyd nes y gellid cynnal arolwg o'r trefniadau cymunedol yn Llanfairpwllgwyngyll a Phorthaethwy ac ailosod cynrychiolaeth un aelod os yn briodol.
- 6.22. Rydym wedi nodi'r pryderon ynglŷn â'r uchod ac wedi ystyried y materion hyn. Ein cynnig, felly, yw i gyfuno wardiau Gwyngyll (1,243 o etholwyr, rhagamcenir 1,405) a ward Braint (1,151 o etholwyr, rhagamcenir 1,209) yng Nghymuned Llanfairpwllgwyngyll. Byddai hyn yn ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 2,394 o etholwyr (rhagamcenir 2,514) a fydd, pe bai dau gynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,197 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 15% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,411 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.23. Ystyriwn y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Gwyngyll** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

## Tysilio

- 6.24. Mae adran etholiadol bresennol Tysilio yn cynnwys ward Tysilio<sup>4</sup> yng Nghymuned Porthaethwy sydd â 1,484 o etholwyr (rhagamcenir 1,558) a gynrychiolir gan un cynghorydd, 17% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Cadnant yn cynnwys ward Cadnant<sup>5</sup> yng Nghymuned Porthaethwy sydd â 819 o etholwyr (rhagamcenir 880) a gynrychiolir gan un cynghorydd, 36% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom adran etholiadol yn cynnwys ward bresennol Tysilio yng Nghymuned Porthaethwy

---

<sup>3, 4, 5.</sup> Wardiau cymunedol fel yr oeddynt yn bodoli cyn Gorchymyn arolwg Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council o drefniadau etholiadol (Wardiau Tysilio a Chadnant Porthaethwy a Chyngor Tref Llangefni) 1998

yn unig gyda 1,484 o etholwyr (rhagamcenir 1,558) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,484 o etholwyr fesul cynghorydd, 2% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 6.25. Cyfeiriodd ein Cynigion Drafft at yr ardaloedd dan sylw fel bod yn un ardal datblygedig, ond nid yw hyn yn wir. Fe wahenir Porthaethwy a Llanfairpwllgwyngyll gyda chaeau agored ac fe'i cysylltir gan ddwy briffordd. Fe nodom y cynrychiolaethau gan Gyngor Tref Porthaethwy a'r Cynghorydd Evans – y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 6.21 - oedd yn gwrthwynebu i'r uno arfaethedig gyda Llanfairpwllgwyngyll ar sail y rhain. Gofynnodd y cynrychiolaethau i'r Comisiwn ystyried y trefniant amgen o uno wardiau Cadnant a Tysilio yng Nghymuned Porthaethwy ynghyd â threfniant tebyg i wardiau Braint a Gwyngyll o Gymuned Llanfairpwllgwyngyll hyd nes y gellid cynnal arolwg o'r trefniadau cymunedol ym Mhorthaethwy ac ailosod cynrychiolaeth un aelod os yn briodol.
- 6.26. Rydym wedi nodi'r pryderon ynglŷn â'r uchod ac wedi ystyried y materion hyn. Ein cynnig, felly, yw i gyfuno wardiau Tysilio a Cadnant yng Nghymuned Porthaethwy i ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 2,303 o etholwyr (rhagamcenir 2,418) a fydd, pe bai dau gynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,152 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 18% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,411 o etholwyr fesul cynghorydd. Ystyriwn y byddai'r trefniant hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Porthaethwy** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Cwm Cadnant**

- 6.27. Mae adran etholiadol bresennol Cwm Cadnant yn cynnwys Cymuned Cwm Cadnant, (1,755 o etholwyr, rhagamcenir 1,843) gyda chyfanswm o 1,755 o etholwyr (rhagamcenir 1,843) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 38% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein Cynigion Drafft, fe gynigiom adran etholiadol yn cynnwys ward Llandegfan Cymuned Cwm Cadnant yn unig a fyddai, o'i chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel o gynrychiolaeth o 1,457 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd llai nag 1% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,411 o etholwyr fesul cynghorydd. Ni dderbyniom unrhyw gynrychiolaeth parthed y cynnig hwn, ag eithrio o ran yr enw arfaethedig.
- 6.28. Ystyriwn y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Fe nodom yn eu cynrychiolaeth fod Cyngor Cymuned Cwm Cadnant yn awgrymu cyflwyno'r enw **Cwm Cadnant** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig. Felly, rydym yn cynnig yr enw **Cwm Cadnant** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Cyngar a Llanddyfnan**

- 6.29. Mae adran etholiadol bresennol Cyngar yn cynnwys ward Cyngar yng Nghymuned Llangefni (1,483 o etholwyr, rhagamcenir 1,557) gyda chyfanswm o 1,483 o etholwyr (rhagamcenir 1,557) a gynrychiolir gan un cynghorydd, ac mae hynny 17%

yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanddyfnan yn cynnwys Cymuned Llanddyfnan (834 o etholwyr, rhagamceniir 876) a Chymuned Llaneugrad (215 o etholwyr, rhagamceniir 226) gyda chyfanswm o 1,049 o etholwyr (rhagamceniir 1,102) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 17% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe gynigiom gyfuno ward Cyngar yng Nghymuned Llangefni a wardiau Tregaeon a Llangwyllog yng Nghymuned Llanddyfnan i ffurfio adran etholiadol gyda chyfanswm o 1,634 o etholwyr (rhagamceniir 1,716) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,634 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 13% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 6.30. Fe nodom y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Llanddyfnan a ystyriodd na fyddai'r cynigion yn arwain at welliannau mewn democratiaeth leol a bod gwahaniaethau o ran cymeriad oedd yn cefnogi'r ddadl yn erbyn yr uno arfaethedig. Wedi ystyried y gynrychiolaeth hon, rydym bellach yn ystyried y byddai cadw adran etholiadol bresennol Cyngar yn ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly cyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Cyngar** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

## **Adrannau Etholiadol Caergybi**

### **Tref Caergybi, Porthyfelin a Parc a'r Mynydd**

- 6.31. Mae adran etholiadol bresennol Tref Caergybi yn cynnwys ward y Dref yng Nghymuned Caergybi gyda 646 o etholwyr (rhagamceniir 678) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 49% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Porth-y-felin yn cynnwys ward Porth-y-felin yng Nghymuned Caergybi, gyda 1,511 o etholwyr (rhagamceniir 1,567) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 19% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Parc a'r Mynydd yn cynnwys ward y Parc a'r Mynydd yng Nghymuned Caergybi, gyda 915 o etholwyr (rhagamceniir 961) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 28% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno wardiau Porthyfelin, Parc a'r Mynydd a Thref Caergybi yng Nghymuned Caergybi i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 3,072 o etholwyr (rhagamceniir 3,226) a fyddai, pe bai dau gynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,536 o etholwyr fesul cynghorydd, sef 9% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Roeddem yn pryderu am yr amrywedd eang rhwng cyfartaledd y sir a'r adrannau presennol, ac fe ystyriom ei bod yn hanfodol delio â hyn er lled cydraddoldeb etholiadol.
- 6.32. Fe nodom y gynrychiolaeth gan Gyngor Tref Caergybi yn datgan eu gwrthwynebiad i leihad yn nifer cynghorwyr ac i sefydlu adrannau etholiadol aml-aelod oedd yn golygu fod y Cyngor yn ystyried na fyddai'r Cynigion Drafft yn fodd teg o gael gynrychiolaeth i bobl y dref ar y Cyngor Sir. Fe ystyriom y trefniadau etholiadol presennol yn yr ardal, a chyfuniadau amgen o'r cymunedau a wardiau cymunedol, ond nid ydym wedi gallu nodi trefniadau sy'n darparu gwelliant mewn cydraddoldeb etholiadol i'r un lefel a'n cynnig drafft, ac fe ystyriwn fod hyn yn angenrheidiol. Rydym wedi nodi'r pryder, fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn y byddai'r

cynnig hwn yn fanteisiol yn nhermau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Porthyfelin** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Maeshyfyd, Morawelon, Kingsland a Ffordd Llundain**

- 6.33. Mae adran etholiadol bresennol Maeshyfyd yn cynnwys ward Maeshyfyd yng Nghymuned Caergybi, gyda 1,446 o etholwyr (rhagamcener 1,518) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 14% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Morawelon yn cynnwys ward Morawelon yng Nghymuned Caergybi gyda 937 o etholwyr (rhagamcener 984) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 26% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Kingsland yn cynnwys ward Kingsland yng Nghymuned Caergybi gyda 995 o etholwyr (rhagamcener 1,045) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 22% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Ffordd Llundain yn cynnwys ward Ffordd Llundain yng Nghymuned Caergybi gyda 900 o etholwyr (rhagamcener 945) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 29% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno wardiau Maeshyfyd, Kingsland, Morawelon a Ffordd Llundain yng Nghymuned Caergybi i ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 4,278 o etholwyr (rhagamcener 4,492) a fyddai, pe bai tri chynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,426 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 2% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.34. Rydym wedi nodi'r pryderon a fynegwyd gan Gyngor Tref Caergybi sy'n gwrthwynebu i'r lleihad yn niferoedd cynghorwyr ac i sefydlu adrannau aml-aelod ledled Cymuned Caergybi. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn y byddai'r cynnig hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol ac y byddai'n fanteisiol o ran llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Maeshyfyd** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Llanbadrig, Mechell a Llanerchymedd**

- 6.35. Mae adran etholiadol bresennol Llanbadrig yn cynnwys Cymuned Llanbadrig (1,027 o etholwyr, rhagamcener 1,078) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 9% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Mechell yn cynnwys Cymuned Mechell (984 o etholwyr, rhagamcener 1,033) a ward Llanfairynghornwy (201 o etholwyr, rhagamcener 211) yng Nghymuned Cylch-y-Garn, gyda chyfanswm o 1,185 o etholwyr (rhagamcener 1,244) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 7% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanerchymedd yn cynnwys Cymunedau Llanerchymedd (985 o etholwyr, rhagamcener 1,034) a Thref Alaw (423 o etholwyr, rhagamcener 444) ac mae ganddi gyfanswm o 1,408 o etholwyr (rhagamcener 1,478) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 11% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe gynigiom gyfuno Cymuned Llanbadrig; ward Carreg-lefn yng Nghymuned Mechell a ward Llanbabo yng Nghymuned Tref Alaw. Byddai hyn yn creu adran etholiadol gyda chyfanswm o 1,283 o etholwyr (rhagamcener 1,347) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei

chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,283 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 12% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 6.36. Fe nodom y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Tref Alaw nad oedd llawer o bwynt i'w weld o symud ward gymunedol Llanbabo i adran etholiadol arall. Fe ystyriom y trefniadau etholiadol presennol yn yr ardal, a chyfuniadau amgen o'r cymunedau a wardiau cymunedol, ond nid ydym wedi gallu nodi trefniadau sy'n darparu lefel well o gydraddoldeb etholiadol na'n cynnig drafft. Rydym wedi nodi'r pryder ac ystyried y materion hyn, fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn y byddai'r cynnig hwn yn ddymunol yn nhermau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Llanbadrig** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### Llaneilian

- 6.37. Mae adran etholiadol bresennol Llaneilian yn cynnwys Cymunedau Llaneilian (926 o etholwyr, rhagamcenir 972) a Rhosybol (880 o etholwyr, rhagamcenir 924) gyda chyfanswm o 1,806 o etholwyr (rhagamcenir 1,896) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 42% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno ward Llwyfo yng Nghymuned Llaneilian a Chymuned Rhosybol i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,377 o etholwyr (rhagamcenir 1,446) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,377 o etholwyr fesul cynghorydd, sef 5% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.38. Fe dderbyniom wrthwynebiad i'r cynnig hwn gan Gyngor Cymuned Rhosybol parthed pentref Penysarn (gweler paragraff 6.14), fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn y byddai'r cynnig hwn yn ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac yn credu y byddai'r trefniant hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Llaneilian** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### Llanfaethlu a'r Fali

- 6.39. Mae adran etholiadol bresennol Llanfaethlu yn cynnwys Cymunedau Llanfachraeth (458 o etholwyr, rhagamcenir 481), a Llanfaethlu (426 o etholwyr, rhagamcenir 447) a ward Llanrhuddlad (385 o etholwyr, rhagamcenir 404) yng Nghymuned Cylch-y-Garn, gyda chyfanswm o 1,269 o etholwyr (rhagamcenir 1,332) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd llai nag 1% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Y Fali yn cynnwys Cymuned Y Fali (1,707 o etholwyr, rhagamcenir 1,792) gyda 1,707 o etholwyr (rhagamcenir 1,792) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 34% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno Cymuned Llanfaethlu, Cymuned Llanfachraeth a ward Gorad yng Nghymuned y Fali i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,524 o etholwyr (rhagamcenir 1,601) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,524 o etholwyr fesul cynghorydd, sef 5% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 6.40. Fe nodom y gynrychiolaeth gan breswlydd o'r Fali oedd yn pryderu y byddai gan Y Fali lai o lais ar y Cyngor, ac y gellid bod perygl hefyd i gysylltiadau cymunedol yn y dyfodol pe byddai'r cynllun hwn yn cael ei weithredu. Rydym wedi nodi'r pryder ynglŷn â'r uchod ac ystyried y materion hyn, ond teimlwn fod topograffeg a chymeriad yr ardal yn dadlau'n gryf o blaid ein cynigion ac yn parhau i fod o'r farn y byddai'r cynnig hwn yn ddymunol yn nhermau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, ac felly fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Llanfaethlu** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Llanerchymedd**

- 6.41. Mae adran etholiadol bresennol Llanerchymedd yn cynnwys Cymunedau Llanerchymedd (985 o etholwyr, rhagamcenir 211) a Thref Alaw (423 o etholwyr, rhagamcenir 444) ac mae ganddi gyfanswm o 1,408 o etholwyr (rhagamcenir 1,478) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 11% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno Cymuned Llanfaethlu, Cymuned Llanerchymedd a wardiau Llechgynfarwy, Llanddeusant, a Llantrisant yng Nghymuned Tref Alaw i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,353 o etholwyr (rhagamcenir 1,421) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,353 o etholwyr fesul cynghorydd, sef 7% yn llai na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.42. Nododd Cyngor Cymuned Tref Alaw nad oedd llawer o bwynt i'w weld o wahanu Ward Gymunedol fechan Llanbabo o weddill y Gymuned wrth lunio'r cynigion hyn. Ystyriwn y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal hon ac yn ardal etholiadol gymdogol Llanbadrig, ac felly y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Awgrymodd Cyngor Cymuned Tref Alaw yr enw **Llanerchymedd a Thref Alaw** ac fe gynigiwn yr enw **Llanerchymedd a Thref Alaw** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Llanfair-yn-Neubwll a Bryngwran**

- 6.43. Mae adran etholiadol bresennol Llanfair-yn-Neubwll yn cynnwys Cymunedau Bodedern (790 o etholwyr, rhagamcenir 830) a Llanfair-yn-Neubwll (1,018 o etholwyr, rhagamcenir 1,069) gyda chyfanswm o 1,808 o etholwyr (rhagamcenir 1,898) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 42% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Bryngwran yn cynnwys Cymunedau Bryngwran (460 o etholwyr, rhagamcenir 483) a Threwalchmai (755 o etholwyr, rhagamcenir 793), gyda chyfanswm o 1,348 o etholwyr (rhagamcenir 1,415) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 6% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno Cymuned Llanfair-yn-Neubwll a ward Bryngwran yng Nghymuned Bryngwran i ffurfio adran etholiadol gyda chyfanswm o 1,478 o etholwyr (rhagamcenir 1,552) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,478 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 2% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 6.44. Fe nodom y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Llanfair-yn-Neubwll parthed yr etholaeth bresennol a'r posibilrwydd o dorri cysylltiadau cymunedol gyda Bodedern. Fe ystyriom dopograffeg, cysylltiadau ffyrdd a chymeriad yr ardaloedd gan ystyried bod dadleuon yr un mor gryf nad yw'r cynigion yn niweidiol i glymau cymunedol. Rydym wedi nodi ac ystyried y materion hyn, fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn y byddai'r cynnig hwn yn ddymunol yn nhermau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly fe gyflwynwn y cynnig hwn. Cynigiwn yr enw **Llanfair-yn-Neubwll** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Llanfihangel Ysgeifiog a Rhosyr**

- 6.45. Mae adran etholiadol bresennol Llanfihangel Ysgeifiog yn cynnwys Cymunedau Llanfihangel Ysgeifiog (1,193 o etholwyr, rhagamcener 1,253) a Phenmynydd (327 o etholwyr, rhagamcener 343) ac mae ganddi gyfanswm o 1,520 o etholwyr (rhagamcener 1,596) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 20% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Rhosyr yn cynnwys Cymuned Rhosyr (1,733 o etholwyr, rhagamcener 1,820) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 36% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno Cymuned Llanfihangel Ysgeifiog a ward Llangaffo yng Nghymuned Rhosyr i ffurfio adran etholiadol gyda chyfanswm o 1,459 o etholwyr (rhagamcener 1,532) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,459 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 1% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.46. Ni dderbyniom unrhyw gynrychiolaeth parthed y cynnig hwn. Ystyriwn y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Llanfihangel Ysgeifiog** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

### **Llangoed a Phentraeth**

- 6.47. Mae adran etholiadol bresennol Llangoed yn cynnwys Cymuned Llangoed (1,022 o etholwyr, rhagamcener 1,073) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 20% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Pentraeth yn cynnwys Cymunedau Llanddona (524 o etholwyr, rhagamcener 550) a Phentraeth (913 o etholwyr, rhagamcener 959) gyda chyfanswm o 1,437 o etholwyr (rhagamcener 1,509) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 13% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno Cymuned Llangoed a Chymuned Llanddona i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,546 o etholwyr (rhagamcener 1,623) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,546 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 7% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.48. Ni dderbyniom unrhyw gynrychiolaeth parthed y cynnig hwn. Ystyriwn y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Llangoed** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

## Rhosneigr ac Aberffraw

- 6.49. Mae adran etholiadol bresennol Rhosneigr yn cynnwys ward Rhosneigr yng Nghymuned Llanfaelog gyda 748 o etholwyr (rhagamcenir 785) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 41% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Aberffraw yn cynnwys Cymuned Aberffraw (528 o etholwyr, rhagamcenir 554) a ward Maelog (567 o etholwyr, rhagamcenir 595) yng Nghymuned Llanfaelog, ac mae ganddi gyfanswm o 1,095 o etholwyr (rhagamcenir 1,150) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 14% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno Cymuned Llanfaelog a ward Llangwyfan yng Nghymuned Aberffraw i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,365 o etholwyr (rhagamcenir 1,433) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,365 o etholwyr fesul cynghorydd, sef 6% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.50. Ystyriwn y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Ni dderbyniom unrhyw gynrychiolaeth parthed y cynnig hwn ag eithrio gan Gyngor Cymuned Llanfaelog sydd wedi awgrymu'r enw **Maelog** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig ac fe gynigiwn yr enw **Maelog** ar gyfer yr adran etholiadol.

## Mechell a Llanfaethlu

- 6.51. Mae adran etholiadol bresennol Mechell yn cynnwys Cymuned Mechell (984 o etholwyr, rhagamcenir 1,033) a ward Llanfairynghornwy (201 o etholwyr, rhagamcenir 211) yng Nghymuned Cylch-y-Garn, gyda chyfanswm o 1,185 o etholwyr (rhagamcenir 1,244) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 7% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanfaethlu yn cynnwys Cymunedau Llanfachraeth (458 o etholwyr, rhagamcenir 481), a Llanfaethlu (426 o etholwyr, rhagamcenir 447) a ward Llanrhuddlad (385 o etholwyr, rhagamcenir 404) yng Nghymuned Cylch-y-Garn, gyda chyfanswm o 1,269 o etholwyr (rhagamcenir 1,332) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd llai nag 1% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno ward Llanfechell yng Nghymuned Mechell a Chymuned Cylch-y-Garn i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,369 o etholwyr (rhagamcenir 1,437) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,369 o etholwyr fesul cynghorydd, sef 6% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.52. Ni dderbyniom unrhyw gynrychiolaeth parthed y cynnig hwn. Ystyriwn y byddai'r trefniant hwn yn gwella'r lefel o gydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol yn nhermau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Mechell** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.



## Moelfre a Llanddyfnan

- 6.53. Mae adran etholiadol bresennol Moelfre yn cynnwys Cymuned Moelfre, gyda 860 o etholwyr (rhagamcenir 903) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 32% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanddyfnan yn cynnwys Cymunedau Llanddyfnan (834 o etholwyr, rhagamcenir 876) a Llaneugrad (215 o etholwyr, rhagamcenir 226) gyda chyfanswm o 1,049 o etholwyr (rhagamcenir 1,102) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 17% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno Cymuned Moelfre, Cymuned Llaneugrad a ward Llanfihangel Tre'r-Beirdd yng Nghymuned Llanddyfnan i ffurfio adran etholiadol. Byddai gan yr adran etholiadol arfaethedig gyfanswm o 1,275 o etholwyr (rhagamcenir 1,339) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,275 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 12% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.54. Fe nodom y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Llanddyfnan a ystyriodd y byddai'r cynigion yn torri cysylltiadau cymunedol ac na fyddai'n arwain at welliannau mewn democratiaeth leol a bod gwahaniaethau economaidd oedd yn cefnogi'r ddadl yn erbyn yr uno arfaethedig. Ymddengys bod sail i'r ddadl hon, ond ar yr un pryd, roeddem yn dal i fod o'r farn bod gwelliant mewn cydraddoldeb etholiadol yn hanfodol, ac felly fe ystyriom gynlluniau amgen fyddai'n adfer y clymau hyn. Wedi ystyried y gynrychiolaeth hon a'r lefelau o gynrychiolaeth yn yr ardal, rydym nawr yn cynnig adran etholiadol sy'n cyfuno Cymuned Moelfre 860 (903); Cymuned Llaneugrad 215 (226); wardiau Llanfihangel Tre'r Beirdd 200 (210); Tregaeon 57 (60) a Llangwyllog 94 (99) yng Nghymuned Llanddyfnan a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,426 (rhagamcenir 1,498) o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 1% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,411 o etholwyr fesul cynghorydd. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai'r cynnig hwn yn ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac felly fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Moelfre** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

## Pentraeth, Llanfihangel Ysgeifiog a Chwm Cadnant

- 6.55. Mae adran etholiadol bresennol Pentraeth yn cynnwys Cymunedau Llanddona (524 o etholwyr, rhagamcenir 550) a Phentraeth (913 o etholwyr, rhagamcenir 959) gyda chyfanswm o 1,437 o etholwyr (rhagamcenir 1,509) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 13% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanfihangel Ysgeifiog yn cynnwys Cymunedau Llanfihangel Ysgeifiog (1,193 o etholwyr, rhagamcenir 1,253) a Phenmynydd (327 o etholwyr, rhagamcenir 343) ac mae ganddi gyfanswm o 1,520 o etholwyr (rhagamcenir 1,596) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 20% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Cwm Cadnant yn cynnwys Cymuned Cwm Cadnant, ac mae ganddi 1,755 o etholwyr (rhagamcenir 1,843) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 38% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno Cymuned Pentraeth, Cymuned Penmynydd a ward Llansadwrn yng Nghymuned Cwm Cadnant i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,538 o etholwyr

(rhagamcenir 1,615) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,538 o etholwyr fesul cynghorydd, sef 6% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd. Cefnogwyd y cynnig hwn gan Gyngor Cymuned Pentraeth.

- 6.56. Ystyriwn y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Pentraeth** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

## Rhosyr

- 6.57. Mae adran etholiadol bresennol Rhosyr yn cynnwys Cymuned Rhosyr, gyda 1,733 o etholwyr (rhagamcenir 1,820) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 36% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno wardiau Llangeinwen a Niwbwrch yn unig yng Nghymuned Rhosyr i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,467 o etholwyr (rhagamcenir 1,540) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,467 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 1% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.58. Ystyriwn y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Rhosyr** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

## Trearddur

- 6.59. Mae adran etholiadol bresennol Trearddur yn cynnwys Cymuned Rhoscolyn (459 o etholwyr, rhagamcenir 482) a Chymuned Trearddur (1,307 o etholwyr, rhagamcenir 1,372) gyda chyfanswm o 1,766 o etholwyr (rhagamcenir 1,854) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 39% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom y gallai Cymuned gyfan Trearddur ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,307 o etholwyr (rhagamcenir 1,372) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,307 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 10% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.60. Fe nodom y gynrychiolaeth gan Gymuned Rhoscolyn yn gwrthwynebu'r newid i'w trefniadau etholiadol a chael eu gwahanu o Drearddur a'u huno â'r Fali. Er yr ymddengys nad yw'r newid yn ystyried bod Rhoscolyn a Threarddur ar Ynys Cybi yn hytrach na Môn, mae'r ynysoedd wedi eu huno'n agos ac ystyriwn na fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar glymau cymunedol, ac y byddai'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac yn ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Trearddur** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

## Aberffraw a Bryngwran

- 6.61. Mae adran etholiadol bresennol Aberffraw yn cynnwys Cymuned Aberffraw (528 o etholwyr, rhagamcenir 554) a ward Maelog (567 o etholwyr, rhagamcenir 595) yng

Nghymuned Llanfaelog, ac mae ganddi gyfanswm o 1,095 o etholwyr (rhagamcenir 1,150) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 14% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Bryngwran yn cynnwys Cymunedau Bryngwran (460 o etholwyr, rhagamcenir 483) a Threwalchmai (755 o etholwyr, rhagamcenir 793), gyda chyfanswm o 1,348 o etholwyr (rhagamcenir 1,415) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 6% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno wardiau Deheuol a Gogleddol yng Nghymuned Aberffraw, Cymuned Trewalchmai a ward Llanbeulan yng Nghymuned Bryngwran i ffurfio adran etholiadol a chanddi gyfanswm o 1,366 o etholwyr (rhagamcenir 1,435) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,366 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd 6% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.

- 6.62. Fe nodom y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Trewalchmai y dylid enwi'r adran etholiadol yn Nhrewalchmai yn hytrach nag Aberffraw. Gan mai dyma fyddai'r gydran fwyaf, rydym yn cynnig yr enw **Trewalchmai** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig. Ystyriwn y byddai'r cynnig hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn.

## **Tudur a Llanddyfnan**

- 6.63. Mae adran etholiadol bresennol Tudur yn cynnwys ward Tudur yng Nghymuned Llangefni sydd â 898 o etholwyr (rhagamcenir 943) a gynrychiolir gan un cynghorydd, ac mae hynny 29% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Llanddyfnan yn cynnwys Cymunedau Llanddyfnan (834 o etholwyr, rhagamcenir 876) a Laneugrad (215 o etholwyr, rhagamcenir 226) gyda chyfanswm o 1,049 o etholwyr (rhagamcenir 1,102) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 17% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno ward Tudur yng Nghymuned Llangefni a ward Llanddyfnan yng Nghymuned Llanddyfnan i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,381 o etholwyr (rhagamcenir 1,450) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,381 o etholwyr fesul cynghorydd, sef 5% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.64. Fe nodom y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Llanddyfnan (gweler hefyd baragraff 6.54) a ystyriodd na fyddai'r cynigion yn arwain at welliannau mewn democratiaeth leol a bod gwahaniaethau economaidd oedd yn cefnogi'r ddadl yn erbyn yr uno arfaethedig. Ymddengys bod sail i'r ddadl hon, ond ar yr un pryd, roeddem yn dal i fod o'r farn bod gwelliant mewn cydraddoldeb etholiadol yn hanfodol, ac felly fe ystyriom gynlluniau amgen. Fe ystyriom drefniadau amgen ond daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw un fyddai'n adlewyrchu cymeriad yr ardaloedd dan sylw'n well ac felly fe ddychwelom at y casgliad y byddai'r trefniant hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac yn ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Rydym yn cyflwyno'r cynnig hwn. Rydym yn cynnig yr enw **Tudur** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig.

## Trearddur a'r Fali

- 6.65. Mae adran etholiadol bresennol Trearddur yn cynnwys Cymuned Rhoscolyn (459 o etholwyr, rhagamcenir 482) a Chymuned Trearddur (1,307 o etholwyr, rhagamcenir 1,372) gyda chyfanswm o 1,766 o etholwyr (rhagamcenir 1,854) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 39% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Mae adran etholiadol bresennol Y Fali yn cynnwys Cymuned Y Fali, gyda 1,707 o etholwyr (rhagamcenir 1,792) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 34% yn fwy na'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr fesul cynghorydd. Yn ein hadroddiad Cynigion Drafft, fe awgrymom gyfuno Cymuned Rhoscolyn a wardiau Llangynhenedl, Pentref a Gorllewin yng Nghymuned y Fali i ffurfio adran etholiadol â chyfanswm o 1,526 o etholwyr (rhagamcenir 1,600) a fyddai, pe bai un cynghorydd yn ei chynrychioli, yn arwain at lefel gynrychiolaeth o 1,526 o etholwyr fesul cynghorydd, sef 5% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,451 o etholwyr fesul cynghorydd.
- 6.66. Fe nodom y gynrychiolaeth gan breswlydd o'r Fali oedd yn pryderu y byddai gan Y Fali lai o lais ar y Cyngor, ac y gellid bod perygl hefyd i gysylltiadau cymunedol yn y dyfodol pe byddai'r cynllun hwn yn cael ei weithredu. Fe nodom hefyd y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned y Fali oedd yn pryderu y byddai gan y gymuned newid posibl i'w gyllid yn y dyfodol os byddai trigolion yn cael eu halinio gyda chymuned gymdogol. Rydym wedi nodi'r pryderon hyn ac ystyried y materion, fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn y byddai'r cynnig hwn yn fanteision yn nhermau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
- 6.67. Ystyriwn y byddai'r trefniant hwn yn gwella'r cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal ac y byddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac fe gyflwynwn y cynnig hwn. Mae'r Cyngor wedi awgrymu'r enw **Y Fali** ar gyfer yr adran etholiadol arfaethedig. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am enwau eraill.

## Crynodeb o'r Trefniadau Arfaethedig

- 6.68. Mae'r trefniadau etholiadol arfaethedig (a welir yn Atodiad 3) yn darparu lefel o gydraddoldeb sy'n amrywio o 18% islaw i 18% yn fwy na'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,411 o etholwyr i bob cynghorydd (yn seiliedig ar ystadegau etholiadol presennol). Mae gan chwech o'r adrannau etholiadol (19%) lefelau o gynrychiolaeth o dros 10% uwchben neu islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,411 o etholwyr i bob cynghorydd ac mae'r 25 sy'n weddill (81%) oll yn llai na 10% uwchben neu islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,411 o etholwyr i bob cynghorydd. Mae hyn yn cymharu â'r trefniadau etholiadol presennol (a welir yn Atodiad 2) ble mae lefel gwahaniaeth yn amrywio o 49% islaw i 42% uwchben y cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr i bob cynghorydd. Mae gan 15 o adrannau etholiadol (37%) lefelau o gynrychiolaeth sydd dros 25% uwchben neu islaw'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr i bob cynghorydd, mae gan 16 o etholiadau adrannol (40%) lefelau cynrychiolaeth rhwng 10% a 25% uwchben neu islaw'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr i bob cynghorydd, ac mae gan y 9 sy'n weddill (23%) lefelau o gynrychiolaeth llai na 10% uwchben neu islaw'r cyfartaledd sirol presennol o 1,270 o etholwyr i bob cynghorydd.
- 6.69. Wrth gynhyrchu cynllun o drefniadau etholiadol, mae angen ystyried nifer o faterion sydd wedi eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth ac yng Nghyfarwyddyd y Gweinidog. Yn

aml nid yw'n bosibl datrys yr holl broblemau hyn sy'n gwrthdaro oherwydd y gofyniad i ddefnyddio'r cymunedau a wardiau cymunedol presennol fel sylfaeni adrannau etholiadol a'r lefel amrywiol o gynrychiolaeth sy'n bodoli yn yr ardaloedd hyn ar hyn o bryd. Yn ein cynllun arfaethedig, rydym wedi gosod pwyslais ar gyflawni gwelliannau mewn cydraddoldeb etholiadol, gan symud tuag at 1,750 o etholwyr i bob cynghorydd a chadw adrannau etholiadol un aelod, ble bu'n bosibl. Rydym yn sylweddoli y byddai creu adrannau etholiadol sy'n wahanol i'r patrwm a geir ar hyn o bryd yn amharu'n anochel ar y 'cysylltiadau' sefydledig rhwng cymunedau ac y gallai wahanu ardaloedd cynghorau cymuned mewn modd sy'n wahanol. Rydym wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr adrannau etholiadol adolygedig yn cyd-fynd â chyfuniadau synhwyrol o gymunedau a wardiau cymunedol cyfredol. Rydym wedi edrych ar bob un o'r ardaloedd hyn ac yn fodlon y byddai'n anodd cyflawni'r trefniadau etholiadol sy'n cadw'r cyfuniad presennol o gymunedau a wardiau cymunedol o fewn adrannau etholiadol sengl heb gael effaith andwyol ar un neu fwy o'r materion y mae'n rhaid eu hystyried.

## **7. CYNIGION**

- 7.1 Rydym yn cynnig y dylid cael cyngor gyda 36 o aelodau a 31 o adrannau etholiadol – pedair ohonynt yn adrannau aml-aelod - fel y nodir yn Atodiad 3. Mae Atodiad 2 yn cynnwys trefniadau etholiadol y sir ar hyn o bryd er mwyn eu cymharu. Mae'r llinellau melyn parhaus ar y map yn dangos ffiniau'r adrannau etholiadol arfaethedig ac mae'r map wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn a gedwir yn swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn ac yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

## **8. DIOLCHIADAU**

- 8.1 Hoffem fynegi ein diolchgarwch i'r prif gyngor ac i'r cynghorau cymuned am eu cymorth yn ystod yr arolwg ac i'r holl gyrff ac unigolion a gyflwynodd gynrychiolaethau i ni.

## **9. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN**

- 9.1 Wedi cwblhau'n harolwg o Sir Ynys Môn a chyflwyno'n argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad ar drefniadau etholiadol yn y dyfodol ar gyfer y prif awdurdod, rydym wedi cyflawni'n oblygiadau statudol dan y cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.
- 9.2 Os gwêl yn iawn, Llywodraeth y Cynulliad sydd nawr i weithredu'r cynigion hyn naill ai fel y'i cyflwynwyd gan y Comisiwn neu gydag addasiadau, neu os bydd Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu gweithredu'r cynigion hyn gydag addasiadau, fe all gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg pellach.
- 9.3 Dylid cyfeirio unrhyw gynrychiolaethau parthed y materion yn yr adroddiad at Lywodraeth y Cynulliad. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl a pha un bynnag yn ddim hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir yr argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth y Cynulliad. Dylid cyfeirio cynrychiolaethau at:

*Y Tim Democratiaeth  
Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ*

**MR P J WOOD (Cadeirydd)**

**Y PARCH. HYWEL MEREDYDD DAVIES BD (Dirprwy Gadeirydd)**

**Mr D J BADER (Aelod)**

**E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)**

**31 Awst 2010**

## Rhestr o Dermau a Ddefnyddir yn y cyfarwyddyd

<b><i>Arolwg o Ffiniau</i></b>	Arolwg lle mae'r Comisiwn yn adolygu ffiniau ardal llywodraeth leol
<b><i>Blociau adeiladu</i></b>	Gan fod gofyn bod cymunedau a (lle maent yn bodoli) wardiau cymunedol sefyll mewn un adran etholiadol, cânt eu defnyddio fel blociau adeiladu ar gyfer yr adrannau etholiadol
<b><i>Comisiwn</i></b>	Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
<b><i>Maint y cyngor</i></b>	Nifer y cynghorwyr a etholir i'r cyngor
<b><i>Cyfarwyddiadau</i></b>	Cyfarwyddiadau a roddwyd i'r Comisiwn gan y Llywodraeth o dan Adran 59 Deddf 1972
<b><i>Trefniadau etholiadol</i></b>	Faint o gynghorwyr y dylid eu cael ar gyngor ardal llywodraeth leol, y rhannau y dylid rhannu'r ardal iddynt at bwrpas ethol cynghorwyr, nifer y cynghorwyr ar gyfer pob adran etholiadol, ac enw'r ardal etholiadol
<b><i>Adrannau etholiadol</i></b>	Yr adrannau y caiff prif adrannau eu rhannu iddynt at bwrpas ethol cynghorwyr, a elwir weithiau'n wardiau ar lafar
<b><i>Arolwg etholiadol</i></b>	Arolwg lle mae'r Comisiwn yn ystyried trefniadau etholiadol ar gyfer ardal llywodraeth leol
<b><i>Yr etholwyr</i></b>	Nifer y bobl sydd â'r hawl i bleidleisio mewn ardal llywodraeth leol
<b><i>Llywodraeth</i></b>	Llywodraeth Cynulliad Cymru
<b><i>Y rhai â diddordeb</i></b>	Unigolyn neu gorff sydd â diddordeb yng nghanlyniadau adolygiad etholiadol fel y prif gyngor dan sylw, Aelodau Seneddol lleol a phleidiau gwleidyddol, a chynghorau cymuned a thref
<b><i>Adran aml-aelod</i></b>	Adran etholiadol mewn prif ardal a gynrychiolir gan fwy nag un cynghorydd
<b><i>Gorchymyn</i></b>	Gorchymyn a wneir gan y Llywodraeth sy'n gweithredu cynigion y Comisiwn, naill fel y'u cyflwynwyd neu wedi'u haddasu
<b><i>Prif ardal</i></b>	Ardal a lywodraethir gan brif gyngor: yng Nghymru, Sir neu Fwrdeistref Sirol
<b><i>Prif gyngor</i></b>	Yng Nghymru, un o'r awdurdodau unedol: Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol

<b><i>Ymatebydd</i></b>	Corff neu unigolyn sy'n ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn drwy wneud cynrychiolaethau neu gynnig cynigion amgen
<b><i>Rheolau</i></b>	Rheolau y bydd y Comisiwn yn eu dilyn wrth ystyried trefniadau etholiadol, a osodir allan yn Atodlen 11 Deddf 1972
<b><i>Adran un aelod</i></b>	Adran etholiadol prif awdurdod a gynrychiolir gan un cynghorydd
<b><i>Deddf 1972</i></b>	Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1994
<b><i>Deddf 1994</i></b>	Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994
<b><i>Awdurdod Unedol</i></b>	Prif gyngor - un haen o lywodraeth leol, sy'n gyfrifol am yr holl swyddogaethau llywodraethol (neu bron pob un ohonynt) yn ei ardal; a gymerodd le system dwy haen cynghorau sir a chynghorau dosbarth yng Nghymru: Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol



## Aelodaeth Bresennol Cyngor Sir Ynys Môn

Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER CYNGHORWYR	ETHOLAETH 2009	CYMHAREB 2009	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol	ETHOLAETH 2014	CYMHAREB 2014	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol
1	<b>Aberffraw</b>	Cymuned Aberffraw 528 (554) a ward Maelog 567 (695) yng Nghymuned Llanfaelog	1	1,095	1,095	-14%	1,150	1,150	-14%
2	<b>Porth Amlwch</b>	Wardiau Porth 856 (899) a Thref 814 (855) Cymuned Amlwch	1	1,670	1,670	32%	1,754	1,754	32%
3	<b>Amlwch Wiedig</b>	Ward Wiedig 978 (1,027) Cymuned Amlwch	1	978	978	-23%	1,027	1,027	-23%
4	<b>Blwmares</b>	Cymuned Blwmares 1,390 (1,460)	1	1,390	1,390	9%	1,460	1,460	9%
5	<b>Bodffordd</b>	Cymuned Bodffordd 793 (833) a ward Cerrigceinwen 430 (452) yng Nghymuned Llangristiolus	1	1,223	1,223	-4%	1,284	1,284	-4%
6	<b>Bodorgan</b>	Cymuned Bodorgan 719 (755) a ward Llangristiolus 569 (597) yng Nghymuned Llangristiolus	1	1,288	1,288	1%	1,352	1,352	1%
7	<b>Braint</b>	Ward Braint 1,151 (1,209) yng Nghymuned Llanfairpwllgwyngyll	1	1,151	1,151	-9%	1,209	1,209	-9%
8	<b>Bryngwran</b>	Cymunedau Bryngwran 593 (623) a Threwalchmai 755 (793)	1	1,348	1,348	6%	1,415	1,415	6%
9	<b>Brynteg</b>	Wardiau Benllech 'B' 1,156 (1,214) a Brynteg 346 (363) yng Nghymuned Llanfair- Mathafarn-Eithaf	1	1,502	1,502	18%	1,577	1,577	18%
10	<b>Cadhant</b>	Ward Cadhant* 819 (860) yng Nghymuned Porthaethwy	1	819	819	-36%	860	860	-36%
11	<b>Cefni</b>	Ward Cefni 1,130 (1,187) yng Nghymuned Llangefni	1	1,130	1,130	-11%	1,187	1,187	-11%
12	<b>Cwm Cadnant</b>	Cymuned Cwm Cadnant 1,755 (1,843)	1	1,755	1,755	38%	1,843	1,843	38%
13	<b>Cyngar</b>	Ward Cyngar yng Nghymuned Llangefni 1,483 (1,557)	1	1,483	1,483	17%	1,557	1,557	17%
14	<b>Gwyngyll</b>	Ward Gwyngyll 1,243 (1,305) yng Nghymuned Llanfairpwllgwyngyll	1	1,243	1,243	-2%	1,305	1,305	-2%
15	<b>Tref Caergybi</b>	Ward y Dref 646 (678) yng Nghymuned Caergybi	1	646	646	-49%	678	678	-49%
16	<b>Kingsland</b>	Ward Kingsland 995 (1,045) yng Nghymuned Caergybi	1	995	995	-22%	1,045	1,045	-22%
17	<b>Llanbadrig</b>	Cymuned Llanbadrig 1,027 (1,078)	1	1,027	1,027	-19%	1,078	1,078	-19%
18	<b>Llanbedrog</b>	Wardiau Benllech 'A' 794 (834) a Llanbedrog 437 (459) yng Nghymuned Llanfair- Mathafarn-Eithaf	1	1,231	1,231	-3%	1,293	1,293	-3%
19	<b>Llanddyfnan</b>	Cymunedau Llanddyfnan 834 (876) a Llaneugrad 215 (226)	1	1,049	1,049	-17%	1,102	1,102	-17%
20	<b>Llaneilian</b>	Cymunedau Llaneilian 926 (972) a Rhosybol 880 (924)	1	1,806	1,806	42%	1,896	1,896	42%
21	<b>Llanfaethlu</b>	Cymunedau Llanfaethlu 458 (481) a Llanfaethlu 426 (447) a ward Llanrhuddlad 385 (404) yng Nghymuned Cylch-y-Garn	1	1,269	1,269	0%	1,332	1,332	0%
22	<b>Llanfair-yn-neubwll</b>	Cymunedau Bodedern 790 (830) a Llanfair-yn-neubwll 1,018 (1,069)	1	1,808	1,808	42%	1,898	1,898	42%
23	<b>Llanfihangel Ysgeifiog</b>	Cymunedau Llanfihangel Ysgeifiog 1,193 (1,253) a Phenmyydd 327 (343)	1	1,520	1,520	20%	1,596	1,596	20%
24	<b>Llangoed</b>	Cymuned Llangoed 1,022 (1,073)	1	1,022	1,022	-20%	1,073	1,073	-20%
25	<b>Llanidan</b>	Cymunedau Llanddaniel Fab 589 (618) a Llanidan (821 (862)	1	1,410	1,410	11%	1,481	1,481	11%
26	<b>Llanerchymedd</b>	Cymunedau Llanerchymedd 985 (1,034) a Thref Alaw 423 (444)	1	1,408	1,408	11%	1,478	1,478	11%

Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER CYNGHORWYR	ETHOLAETH 2009	CYMHAREB 2009	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol	ETHOLAETH 2014	CYMHAREB 2014	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol
27	Ffordd Llundain	900 (945) yng Nghymuned Caergybi	1	900	900	-29%	945	945	-29%
28	Maeshyfyd	1,446 (1,518) yng Nghymuned Caergybi	1	1,446	1,446	14%	1,518	1,518	14%
29	Mechell	Cymuned Mechell 984 (1,033) a ward Llanfaiyngomwy 201 (211) yng Nghymuned Cylch-y-Garn	1	1,185	1,185	-7%	1,244	1,244	-7%
30	Moelfre	Cymuned Moelfre 860 (903)	1	860	860	-32%	903	903	-32%
31	Morawelon	Ward Morawelon 937 (984) yng Nghymuned Caergybi	1	937	937	-26%	984	984	-26%
32	Parc a'r Mynydd	Ward Parc a'r Mynydd 915 (961) yng Nghymuned Caergybi	1	915	915	-28%	961	961	-28%
33	Pentraeth	Cymunedau Llanddona 524 (550) a Phentraeth 913 (959)	1	1,437	1,437	13%	1,509	1,509	13%
34	Porthyfelin	Ward Porthyfelin 1,511 (1,587) yng Nghymuned Caergybi	1	1,511	1,511	19%	1,587	1,587	19%
35	Rhosneigr	Ward Rhosneigr 748 (785) yng Nghymuned Llanfaelog	1	748	748	-41%	785	785	-41%
36	Rhosyr	Cymuned Rhosyr 1,733 (1,820)	1	1,733	1,733	36%	1,820	1,820	36%
37	Trearddur	Cymunedau Rhoscolyn 459 (482) a Threarddur 1,307 (1,372)	1	1,766	1,766	39%	1,854	1,854	39%
38	Tudur	Ward Tudur 898 (943) yng Nghymuned Liangefni	1	898	898	-29%	943	943	-29%
39	Tysilio	Ward Tysilio* 1,484 (1,558) yng Nghymuned Porthaethwy	1	1,484	1,484	17%	1,558	1,558	17%
40	Y Falli	Cymuned Y Falli 1,707 (1,793)	1	1,707	1,707	34%	1,793	1,793	34%
		<b>CYFANSYMAU:</b>	<b>40</b>	<b>50,793</b>	<b>1,270</b>		<b>53,334</b>	<b>1,333</b>	

Cymhareb yw'r nifer o etholwyr i bob cynghorydd

Cynhwysir nifer yr etholwyr ar gyfer 2009 a 2014 (mewn cromfachau) yn nigrifed yr adrannau etholiadol hynny

Cyflwynwyd y ffigurau etholiadol gan Gyngor Sir Ynys Môn

\*Wardiau cymunedol fel yr oeddynt yn bodoli cyn Gorchymyn arolwg Cyngor Sir Ynys Môn/isle of Anglesey County Council o drefnadau etholiadol (Wardiau Tysilio a Chadnant Porthaethwy a Chyngor Tref Liangefni)

	2009	2014
Mwy na ± 50% o gyfartaledd y Sir	0	0
Rhwng ± 25% a ± 50% o gyfartaledd y Sir	15	15
Rhwng ± 10% a ± 25% o gyfartaledd y Sir	16	17
Rhwng 0% a ± 10% o gyfartaledd y Sir	9	8
	23%	20%

# Aelodaeth Arfaethedig Cyngor Sir Ynys Môn

## Atodiad 3

	Disgrifiad	2009		Cymhareb	% amrywiaeth o'r gyfartaledd Sirol	Etholaeth 2014		% amrywiaeth o'r gyfartaledd Sirol
		Cynghorwyr	Etholaeth			Cynhareb	Etholaeth	
1	Wardiau Porth 856 (899) a Thref 814 (855) Cymuned Amlwch	1	1,670	1,670	18%	1,754	1,754	18%
2	Ward wledig 978 (1,027) yng Nghymuned Amlwch a ward Eilian 429 (450) yng Nghymuned Llanellian	1	1,407	1,407	0%	1,477	1,477	0%
3	Cymuned Biwmares 1,390 (1,459)	1	1,390	1,390	-1%	1,459	1,459	-2%
4	Cymuned Bodedern 790 (830) a Chymuned Bodffordd 793 (833)	1	1,583	1,583	12%	1,663	1,663	12%
5	Cymuned Bodorgan 719 (755) a ward Llangristiolus yng Nghymuned Llangristiolus 569 (597)	1	1,288	1,288	-9%	1,352	1,352	-9%
6	Ward Brynteg 346 (363) a Benllech 'B' 1,156 (1,214) yng Nghymuned Llanfair Mathafarn Eithaf	1	1,502	1,502	6%	1,577	1,577	6%
7	Ward Cefni 1,130 (1,187) Cymuned Llangefni; a ward Ceirgeinwen 430 (452) yng Nghymuned Llangristiolus	1	1,560	1,560	11%	1,639	1,639	11%
8	Ward Llandeglan 1,457 (1,530) yng Nghymuned Cwm Cadnant	1	1,457	1,457	3%	1,530	1,530	3%
9	Ward Cyngar 1,483 (1,557) yng Nghymuned Llangefni	1	1,483	1,483	5%	1,557	1,557	5%
10	Cymuned Llanfairpwllgwyngyll 2,394 (2,514)	2	2,394	1,197	-15%	2,514	1,257	-15%
11	Wardiau Tref 646 (678), Porthyfelin 1,511 (1,587) a'r Parc ar Mynydd 915 (961) yng Nghymuned Caerdybi	2	3,072	1,536	9%	3,226	1,613	9%
12	Cymuned Llanbadrig 1,027 (1,078); ward Carreg-lein 201 (211) yng Nghymuned Mechell a ward Llanbabo 55 (58) yng Nghymuned Tref Alaw	1	1,283	1,283	-9%	1,347	1,347	-9%
13	Wardiau Benllech 'A' 794 (834) a Llanbedrgoch 437 (459) yng Nghymuned Llanfair Mathafarn Eithaf	1	1,231	1,231	-13%	1,293	1,293	-13%
14	Ward Llwyfo 497 (522) Cymuned Llanellian a Chymuned Rhosybol 880 (924)	1	1,377	1,377	-2%	1,446	1,446	-2%
15	Cymuned Llanfaethlu 426 (448); Cymuned Llanfacheth 458 (481) a ward Gorad 640 (672) yng Nghymuned y Falli	1	1,524	1,524	8%	1,601	1,601	8%
16	Cymuned Llanfair-yn-neubwll 1,108 (1,069) a ward Bryngwan 460 (483) yng Nghymuned Bryngwan	1	1,478	1,478	5%	1,552	1,552	5%
17	Cymuned Llanfihangel Ysgellfog 1,193 (1,253) a ward Liangaifo 266 (279) yng Nghymuned Rhosyr	1	1,459	1,459	3%	1,532	1,532	3%
18	Cymuned Liangoed 1,022 (1,073) a Chymuned Llanddolan 524 (550)	1	1,546	1,546	10%	1,623	1,623	10%
19	Cymuned Llanidan 821 (862) a Chymuned Llanddaniel Fab 589 (618)	1	1,410	1,410	0%	1,480	1,480	0%
20	Cymuned Llanerchymedd 985 (1,035) a wardiau Llechynfanwy 47 (49), Llanddeusan 241 (253) a Llanrisant 80 (84) yng Nghymuned Tref Alaw	1	1,353	1,353	-4%	1,421	1,421	-4%
21	Cymuned Llanfabeig 1,315 (1,380) a ward Liangwfan 50 (53) yng Nghymuned Aberffraw	1	1,365	1,365	-3%	1,433	1,433	-3%
22	Wardiau Maeshyfyd 1,446 (1,518), Morawelon 937 (984), Kingsland 965 (1,045), a Ffordd Llundain 900 (945) Cymuned Caerdybi	3	4,278	1,426	1%	4,492	1,497	1%
23	Ward Llanfihangel 783 (822) Cymuned Mechell a Chymuned Cylch-y-Garn 586 (614)	1	1,369	1,369	-3%	1,437	1,437	-3%
24	Cymuned Moelfre 860 (903); Cymuned Llanegwad 215 (226); a wardiau Llanfihangel Tre'r Beirdd 200 (210), Tregaeon 57 (60) Llangwyllog 94 (99) yng Nghymuned Llanddŷfnan.	1	1,426	1,426	1%	1,498	1,498	1%
25	Cymuned Penraeth 913 (959); Cymuned Penynydd 327 (343) a ward Llanfadwrn 298 (313) yng Nghymuned Cwm Cadnant	1	1,538	1,538	9%	1,615	1,615	9%
26	Wardiau Llangenwen 658 (691) a Niwbwrch 809 (849) yng Nghymuned Rhosyr	1	1,467	1,467	4%	1,540	1,540	4%
27	Cymuned Trearddur 1,307 (1,372)	1	1,307	1,307	-7%	1,372	1,372	-7%
28	Wardiau Deheulol 390 (410) a Gogleddol 88 (92) Cymuned Aberffraw; Cymuned Trewalchmai 755 (793); a ward Llanbeulan 133 (140) yng Nghymuned Bryngwan.	1	1,366	1,366	-3%	1,435	1,435	-3%
29	Ward Tudur 898 (943) yng Nghymuned Llangefni a ward Llanddŷfnan 483 (507) yng Nghymuned Llanddŷfnan	1	1,381	1,381	-2%	1,450	1,450	-2%
30	Cymuned Porhaethwy* 2,303 (2,418)	2	2,303	1,152	-18%	2,418	1,209	-18%
31	Cymuned Rhoscolyn 459 (482); a wardiau Llanynghenedd 68 (71), Penntref 643 (675), a Gorllewin 356 (372) yng Nghymuned y Falli	1	1,526	1,526	8%	1,600	1,600	8%
		<b>36</b>	<b>50,793</b>	<b>1,411</b>		<b>53,333</b>	<b>1,481</b>	

Cymhareb yw'r nifer o etholwyr i bob cymhorydd

Cynhwysir nifer yr etholwyr ar gyfer 2009 a 2014 (mewn comfachau) yn niferolau'r adranau etholiadol hynny

Cylhwysid y ffigurau etholiadol gan Gyngor Sir Ynys Môn

\* Wardiau cymunedol fel yr oesdynt yn bodoli cyn Gorchymyn arwng Cyngor Sir Ynys Môn/ise of Anglesey County Council o drefniadau etholiadol (Wardiau, Tystlo a Chadnant Porhaethwy a Chyngor Tref Llangefni)

	<b>2009</b>		<b>2014</b>
Mwy na ± 50% o gyfartaledd y Sir	0	Mwy na ± 50% o gyfartaledd y Sir	0
Rhwng ± 25% a ± 50% o gyfartaledd y Sir	0	Rhwng ± 25% a ± 50% o gyfartaledd y Sir	0
Rhwng ± 10% a ± 25% o gyfartaledd y Sir	6	Rhwng ± 10% a ± 25% o gyfartaledd y Sir	6
Rhwng 0% a ± 10% o gyfartaledd y Sir	25	Rhwng 0% a ± 10% o gyfartaledd y Sir	25

## 2009 RHIF 2

## DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Cyfarwyddiadau i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru  
2009

*Gwnaed* 2009

*Yn dod i rym* 2009

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 59(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(2):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru 2009.

(2) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

2. Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr “y Comisiwn” (*“the Commission”*) yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru; ac

ystyr “y Ddeddf” (*“the Act”*) yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**Adrannau Amlaelod**

3. Yn unol â pharagraff 1A(3) o Atodlen 11 i'r Ddeddf(3) mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod yn rhaid i'r Comisiwn ystyried pa mor ddymunol fyddai adrannau etholiadol amlaelod ym mhob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol(4) yn y prif ardaloedd yng Nghymru a grybwyllir yn adran 20, Atodlen 4 i'r Ddeddf.

(1) 1972 p.70.

(2) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a pharagraff 30 (1) a (2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(3) Fel y'i mewnosodwyd gan adran 7(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1994.

(4) Fel y cyfeirir atynt yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, adran 20, Atodlen 4, a amnewidir gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, adran 1(2), Atodlen 1, paragraff 2.

**Adolygu trefniadau etholiadol**

4. Yn unol ag adran 59(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru'n rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Comisiwn er mwyn ei gyfarwyddo yn y gwaith o adolygu trefniadau etholiadol y mae'n ofynnol o dan adran 55 o'r Ddeddf iddo ei wneud —

- (a) Ystyrir bod angen isafswm o 30 o gynghorwyr ar gyfer rheoli'n briodol fusnes cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;
- (b) Ystyrir bod angen uchafswm o 75 o gynghorwyr fel arfer i reoli'n briodol fusnes cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, fel y byddo'r risg o gael cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol anhylaw ac anodd ei drin mor fach â phosibl;
- (c) Ystyrir y dylid amcanu at gael adrannau etholiadol â chymhareb cynghorwyr i etholwyr nad yw'n llai na 1:1750;
- (ch) Ystyrir na ddylid penderfynu newid patrwm presennol adrannau amlaelod ac adrannau un aelod yn yr ardaloedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 o'r Cyfarwyddiadau hyn ond pan gefnogir y cyfryw gynigion yn gyffredinol gan yr etholwyr, i'r graddau y gellir gwybod safbwyntiau'r etholwyr er mwyn bodloni'r gofyniad am ymgynghori a geir yn adran 60 o'r Ddeddf;
- (d) Ystyrir bod yn rhaid i'r Comisiwn, pan fydd yn cynnal adolygiadau o dan Ran 4 o'r Ddeddf, gydymffurfio â pharagraff 1A o Atodlen 11 i'r Ddeddf ac â'r Cyfarwyddiadau hyn.

**Adroddiadau ar adolygu trefniadau etholiadol**

5. Yn unol ag adran 58(1) o'r Ddeddf mae Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo bod yn rhaid cyflwyno i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin 2011 adroddiadau a baratowyd gan y Comisiwn mewn cysylltiad ag adolygu trefniadau etholiadol mewn perthynas â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref lleol yng Nghymru .



Llofnodwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad

13 / 11

2009

12 Mai 2009

### **Cyfarwyddiadau ynglŷn ag Arolygon o Drefniadau Etholiadol**

Rwy'n ymwybodol eich bod chi wedi cychwyn gwaith rhagarweiniol yn y cylch o arolygon o drefniadau etholiadol ym mhob un o'r prif gynghorau. Mae cyflwyniadau a dderbyniais gan lywodraeth leol yn awgrymu i mi eich bod chi efallai wedi dehongli fy nghyfarwyddiadau i fod yn fwy cyfarwyddol na'r rhai a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1995 cyn y cylch adolygu diwethaf. Rwyf eisiau ei gwneud hi'n eglur mai nid felly y mae.

Cyhoeddwyd y cyfarwyddiadau er arweiniad i chi ac ni ddylid eu hystyried yn orchmynion. Ar lawer cyfrif - yn neilltuol, mewn perthynas â'r ardaloedd sy'n addas ar gyfer adrannau ag aelodau lluosog a'r amserlen - roedd y cyfarwyddiadau diwethaf yn fwy cyfarwyddol ond mewn perthynas â mater canolog y gymhareb rhwng cynghorwyr ac etholwyr, mae'r geiriad yn union debyg. Mae hyn yn golygu bod y gymhareb yn parhau fel nod i weithio tuag ato ac nid fel nod i'w gyflawni ym mhob achos. Wrth wneud hyn, dylid rhoi sylw i gymunedau lleol yn cael eu cynrychiolwyr canfyddadwy eu hun, hyd yn oed ble nad yw'r ffigur dangosol o 1,750 o etholwyr/cynghorydd bob amser yn gyraeddadwy.

Wrth gwrs, rwy'n cydnabod er 1995 rydym wedi gweld cyflwyno trefniadau gweithredol neu amgen ymhlith prif gynghorau, ac efallai byddant yn arwyddocaol o ran nifer y cynghorwyr sydd eu hangen i wneud cyngor yn hollol ymarferol. Hefyd cafodd cyfarwyddiadau 1995 eu cyflwyno ar adeg pan oedd ad-drefnu'n digwydd, mewn awyrgylch gwleidyddol gwahanol i'r hyn sy'n bodoli nawr.

Yn olaf, hoffwn dynnu sylw at yr amodiad yn Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid ystyried yr angen i sefydlogi ffiniau sy'n hawdd eu hadnabod ac sy'n cydnabod cysylltiadau'r gymuned leol.

Rwy'n dymuno'n dda i chi yn y broses adolygu.


Yn gywir

---

Cyfieithiad Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yw hwn o lythyr gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

PORTHAETHWY

Atodiad 5



Atgynhychwyd â chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa ei Mawrthdy. © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2009. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100012255.

**CRYNODEB O'R CYNRYCHIOLAETHAU A  
DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I GYNIGION DRAFFT**

**1. Eleanor Burnham AC**

Mewn cynrychiolaeth oedd yn cwmpasu pob Arolwg ledled Gogledd Cymru, roedd Mrs Burnham yn pryderu:

- Y gallai aildrefnu ffiniau elyniaethu etholwyr
- Y gallai Cynghorwyr lluosog beri dryswch ymysg etholwyr
- Bydd cynyddu pellter teithio yn ychwanegu at lwyth gwaith Cynghorwyr ac yn lleihau cyswllt personol
- Ymddengys bod diffyg dealltwriaeth o “natur lwythol” clymau cymunedol.

**2. Cyng Keith Evans - *Cadnant, Porthaethwy***

Pryderon y Cynghorydd Evans oedd:

- Na ddylid uno Ward Cadnant Porthaethwy gyda Wardiau Braint a Gwyngyll i ffurfio ward aml-aelod.
- Bod y cynigion yn mynd yn gwbl groes i safbwynt yr aelodau etholedig ar drefniadau un aelod yn erbyn aml-aelod.
- Golyga maint yr ardal arfaethedig y bydd yn anod i ymgeisydd annibynnol ganfasio yn ystod cyfnod etholiadol.
- Disgrifir yr ardaloedd dan sylw fel “... o fewn un ardal ddatblygedig” pan nad yw hyn yn wir mewn gwirionedd. Nid oes unrhyw gysylltiadau rhwng yr ardaloedd dan sylw na chyfleusterau a rennir.

Cynigiodd y Cynghorydd Evans y gwrthgynnig y dylid uno Wardiau Cadnant a Thysilio Porthaethwy dros dro, gyda chynrychiolaeth gan ddau aelod ac uno Wardiau Braint a Gwyngyll i ffurfio ail ward aml aelod. Byddai hyn yn dod ag aelodaeth arfaethedig y Cyngor i 36 yn hytrach na 35.

**3. Cyng H.E. Jones - *Llanidan***

Ysgrifennodd y Cynghorydd Jones i gefnogi'r cynigion ar gyfer Llanidian.

**4. Cyng G.O. Jones – *Llanfair-yn-Neubwll***

Roedd y Cynghorydd Jones yn gwrthwynebu argymhellion yr Adroddiad Drafft ac yn pryderu:

- Bod yr adran etholiadol arfaethedig yn rhy fawr yn gorffol, a bod cysylltiadau a ffiniau lleol wedi eu chwalu.

**5. Cyngor Cymuned Bodedern**

Gwrthododd y Cyngor Cymuned y newidiadau arfaethedig oherwydd:

- Roedd yr adran etholiadol arfaethedig yn eithaf mawr ac nid oes angen uno Bodedern â Bodffordd.
- Ni ddylid defnyddio'r enw **Bodffordd** ar gyfer yr adran etholiadol newydd.

**6. Cyngor Cymuned Cwm Cadnant**

Gwrthododd y Cyngor Cymuned y newidiadau arfaethedig i enw ei adran etholiadol, gan ffafrio **Cwm Cadnant** yn hytrach na'r enw a gynigiwyd, sef **Llandegfan**.

**7. Cyngor Tref Caergybi**

Penderfynodd y Cyngor Tref y byddai sefydlu dwy ward aml-aelod yn y drefn yn peri dryswch i'r etholwyr. Gan fod y boblogaeth yn cynyddu blwyddyn ar flwyddyn, mae'r Cyngor yn ystyried na fyddai'r Cynigion Drafft yn cynnig cynrychiolaeth deg i bobl y dref ar y Cyngor Sir.

**8. Cyngor Cymuned Llanddyfnan**

Gwrthwynebodd y Cyngor Cymuned y newidiadau arfaethedig am nad yw pentref Talwrn yn addas i'w uno â'r wardiau Cymunedau yn Gyntaf cymdogol am resymau economaidd, ac roeddynt o'r farn na fyddai'r cynigion yn gwella democratiaeth leol.



**9. Cyngor Cymuned Llanfaelog**

Cytunodd y Cyngor Cymuned gyda'r newidiadau arfaethedig, ond mae'n awgrymu'r enw amgen o **MAELOG** iddo'i hun.

**10. Cyngor Cymuned Llanfair-yn-Neubwll**

Roedd y Cyngor Cymuned yn pryderu ynglŷn â'r cynigion yn yr Adroddiad ac fe'n hatgoffodd fod gan yr adran etholiadol bresennol 1,800 o etholwyr – oddeutu'r gymhareb a argymhellir – ac felly nad oedd angen newid. Mae'r cynigion hefyd yn rhannu'r gymuned mewn sawl modd – maint yr adran arfaethedig, pryderon ynglŷn â'r Fynwent Gyhoeddus, Clybiau Ieuenctid a hawliau pori, er enghraifft – a ymddengys fyddai'n niweidiol i'r etholaeth.

**11. Cyngor Cymuned Llanidan**

Cytunodd y Cyngor Cymuned gyda'r newidiadau arfaethedig.

**12. Cyngor Tref Porthaethwy**

Gwrthwynebodd y Cyngor Tref y cynllun ac ystyried y gall fod anghydbwysedd pe byddai ward Cadnant Porthaethwy yn cael ei huno gyda wardiau Braint a Gwyngyll i ffurfio un ward aml-aelod.

Cyflwynodd y Cyngor Tref wrthgynnig y dylid parhau fel y mae nes y bydd ffiniau mewnol yn cael eu haddasu ym Mhorthaethwy neu uno dros dro o wardiau Cadnant a Thysilio Porthaethwy gyda chynrychiolaeth gan ddau Gynghorydd.

**13. Cyngor Cymuned Pentraeth**

Roedd y Cyngor Cymuned yn cydnabod ei bod yn anodd asesu anghenion unrhyw un gymuned yn unigol. Roedd y Cyngor Cymuned yn ffafrio'r cynigion oedd yn effeithio ar Bentraeth, ond aeth ymlaen i ddweud na fyddai'r awgrym yn yr Adroddiad o Gyngor gyda 30 o aelodau yn ddigonol i Ynys Môn.

**14. Cyngor Cymuned Rhoscolyn**

Roedd y Cyngor Cymuned yn pryderu ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig ac yn eu gwrthwynebu'n gryf oherwydd bod y cysylltiadau rhwng Rhoscolyn a Threarddur yn gryfach na'r rhai rhwng Rhoscolyn a'r Fali - yn arbennig gan fod y Fali ar Ynys Môn ei hun yn hytrach nag Ynys Cybi.

**15. Cyngor Cymuned Rhosybol**

Datganodd y Cyngor Cymuned bod Llanelian yn "... cyrraedd y targed cenedlaethol..." ac roedd yn gwrthwynebu'r newidiadau drafft yn gryf gan y byddai pentref Penysarn yn cael ei rannu rhwng adrannau etholiadol Llanelian ac Amlwch Wledig ac y byddai hyn yn niweidiol i'r Gymuned.

**16. Cyngor Cymuned Tref Alaw**

Roedd y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cynigion. Roeddynt yn pryderu y byddai'r Adroddiad yn golygu y byddai Cyngor Cymuned Tref Alaw yn cael ei gynrychioli ar lefel Sirol gan Gynghorwyr mewn dwy adran etholiadol ar wahân.

- Nodwyd pryder hefyd nad oedd llawer o bwynt i'w weld o symud Llanbabo i ward Llanbadrig.
- Gofynnodd y Cyngor Cymuned am newid enw'r adran etholiadol arfaethedig i'w ffurf gynharach o **Llanerchymedd a Thref Alaw**.

**17. Cyngor Cymuned Trewalchmai**

Roedd y Cyngor yn pryderu ynglŷn â'r enw arfaethedig a roddwyd ar gyfer eu hadran etholiadol a chyflwyno gwrthgynnig y dylid defnyddio'r enw **Trewalchmai** yn hytrach nag Aberffraw.

**18. Cyngor Cymuned y Fali**

Roedd y Cyngor yn pryderu ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r Fali ac yn eu gwrthwynebu'n gryf, gan nodi:

- Bod yna gyswllt cryf rhwng pedair rhan yr adran etholiadol bresennol fyddai'n cael ei sgubo i fwrdd pe derbynir yr adroddiad.

- Y gellid achosi erydu pellach o Gymuned y Fali a'i gyllideb os ymddengys bod etholwyr wedi eu cysylltu'n agosach â Chyngor Cymuned arall.
- Ychydig o amser a fu i ymgynghori â thrigolion ac mae'r Cyngor Cymuned yn gofyn i gael gwahodd cynghorau cymuned i gyfarfod y Comisiwn gyda'r Cyngor Sir.
- Dylai ward Rhoscolyn barhau i fod wedi ei gysylltu â Bae Trearddur [...*yn arbennig gan fod yr olaf ar Ynys Môn ei hun yn hytrach nag Ynys Cybi.*]

**19. Preswlydd o Gorad**

Roedd y preswlydd yn gwrthwynebu'r argymhelliad i uno ward Gorad yng Nghymuned y Fali gydag adran etholiadol newydd arfaethedig Llanfaethlu, gan nodi:

- Y bu diffyg ymgynghori allai effeithio ar ble mae pleidleisio'n digwydd a allai fod yn niweidiol i bleidleisio.
- Mae gan Gymuned y Fali ffiniau naturiol, canfyddadwy ac mae'n cysylltu ei hun yn fwy gyda Chaergybi na'r gymuned fwy gwledig o Lanfaethlu. Mae yna gwestiwn o ddinistrio cysylltiadau a ffiniau naturiol yn ogystal â dinistrio hen draddodiadau.
- Bydd Cyngor Cymuned Y Fali yn cael ei gynrychioli ar lefel sirol gan ddau gynghorydd gyda llais "gwan" o bosibl.

**20. Preswlydd o Borthaethwy**

Ystyriai'r preswlydd bod y dystiolaeth yn awgrymu mai dim ond 30 Cynghorydd oedd angen ar Ynys Môn, a bod y Cyngor ei hun yn gwrthwynebu hyn trwy fynnu ar 35 aelod.

**21. Preswlydd o Gaerwen**

Cyfeiriodd y preswlydd at lythyr cynharach a gyhoeddwyd yn yr Holyhead and Anglesey Mail yn esbonio'r broses ymgynghori ac yn annog pobl i ymateb o fewn y dyddiad cau. Roedd hefyd yn pryderu:

Y gallai'r gymhareb o 1:1,700 arwain at gyngor o 30 o aelodau gan ofyn a fyddai'r Comisiwn yn gweithredu hyn yn unochrog?

**22. Preswlydd o Borthaethwy**

Mewn cynrychiolaeth fanwl, roedd y preswlydd hwn yn gofidio bod:

- Yr Adroddiad Cynigion Drafft yn disgrifio Braint a Chadnant fel bod "mewn un ardal ddatblygedig" pan nad ydynt.
- Mae angen addasu ffiniau wardiau o fewn Porthaethwy a Llanfairpwllgwyngyll.
- Oedd yr Adroddiad yn seiliedig ar ystadegau etholiadol allai fod yn naw mlwydd oed?
- A anwybyddwyd cysylltiadau lleol wrth lunio'r argymhellion?

**23. Preswlydd o Lanfairpwll**

Roedd y preswlydd hwn yn pryderu

- Nad oedd adrannau aml-aelod yn ateb delfrydol. Gallai hyn arwain at ffafriaeth ymysg Cynghorwyr a etholwyd o un rhan o'r adran etholiadol – yn arbennig os yw'r adran dan sylw yn ardal ddaearyddol eang – ac arwain at ddryswch ymysg pleidleiswyr os nad yw'r Cynghorwyr yn adnabyddus.
- Nid oedd y lleihad yn nifer Cynghorwyr i 35 yn mynd ddigon pell ac fe fyddai lleihad pellach yn ei gwneud yn haws i uno â Chyngor Sir Gwynedd yn y dyfodol.
- Gofynnwyd i'r Comisiwn argymhell gostyngiad pellach ac i ystyried trefnu ffiniau i osgoi adrannau aml-aelod cymaint â phosibl.

Roedd yr un preswlydd wedi synnu mai ei sylw a gyhoeddwyd yn yr Adroddiad Cynigion Drafft oedd yr un a dderbyniwyd gan y cyhoedd a mynegodd ei amheuan ynglŷn â'r lefel o ymgynghori a ddefnyddiwyd.

## Atodiad 6

Cyfeiriodd at ei lythyr a gyhoeddwyd yn yr *Holyhead and Anglesey Mail* yn esbonio'r broses ymgynghori ac yn annog pobl i ymateb o fewn y dyddiad cau. Gwnaeth y preswlydd y pwynt nad oedd lefel cyhoeddusrwydd y Comisiwn yn annog trafodaeth nac ymgysylltiad â'r cyhoedd.

Rhoddodd y preswlydd ei farn bod cyngor o 30 aelod yn ddigonol, ond bod adrannau aml-aelod yn annerbyniol.

Mewn trydydd cynrychioliad, darparodd y preswlydd gopi o erthygl yn y *Bangor and The Isle of Anglesey Mail* oedd yn ymwneud â gwahodd y Comisiwn i gwrdd â'r Cyngor. Ailfynegwyd ei anfodlonrwydd â'r broses ymgynghori a'r prif bwyntiau a gyflwynwyd oedd:

- Lleihau'r Cyngor i 30 aelod
- Addasu'r ffiniau yn unol â hynny
- Peidio sefydlu wardiau aml-aelod

Mewn neges e-bost, fe ymddiheurodd y preswlydd hwn am dybiaeth wallus – ni sylweddolodd bod y Comisiwn wedi cwrdd yn gynharach â'r Cyngor ac nid oedd yn gwybod a oedd yn glir p'un a oedd cais am gyfarfod pellach wedi ei wneud mewn pryd i fod o fewn y dyddiad cau o 30 Mawrth 2010.

Yna fe drafododd y preswlydd sgwrs ar hap gyda Chynghorydd Gwynedd a arddangosodd enghreifftiau ble nad oedd trefniadau aml-aelod yn gweithio yn yr awdurdod lleol hwnnw. Dyfynnodd y preswlydd ddryswch etholwyr fel un effaith, ac atebolrwydd y Cynghorwyr fel rheswm arall yn erbyn sefydlu'r trefniadau hynny ar Ynys Môn.

### 24. **Preswlydd o Bentraeth**

Roedd y preswlydd hwn yn pryderu ei bod yn anodd delio ag anghenion unrhyw un gymuned unigol ond aeth ymlaen i ddweud y byddai Cyngor mwy effeithiol o 30 aelod dan gymhareb o 1:1,750 yn ddigonol i Gyngor Sir Ynys Môn.

### 25. **Preswlydd o Preston**

Cyflwynodd y llythyrwr hwn gynllun ar gyfer 30 o adrannau etholiadol a gynrychiolir gan 35 o gynghorwyr a chyfartaledd sirol arfaethedig o 1:1,451.

